

Prif Gynllun Basn Caerffili

Cymeradwywyd 17eg Gorffennaf





Adran 1: Cyflwyniad

1.1

Mae'r prif gynllun hwn yn gosod y cyfleoedd datblygu ac adfywio i'r dyfodol a gynigir ar gyfer canol tref Caerffili yng nghyd-destun Basn ehangach Caerffili. Mae'n ceisio adeiladu ar gryfderau presennol Caerffili i sicrhau bod y dref yn gwella'i rôl fel canolfan manwerthu, twristaidd a chyflogaeth, a gefnogir gan ddatblygiad tai newydd mewn lleoedd cynaliadwy.

1.2

Mae yna gyfle cyffrous i hwyluso newid sylweddol trwy Gytundeb Dinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd, a fydd yn darparu adnoddau i ddatgloi twf economaidd sylweddol yn y rhanbarth, gan gyflwyno swyddi a buddsoddiad sector preifat. Mae'r Prif Gynllun hwn yn dynodi nifer o brosiectau yng nghanol tref Caerffili a Basn ehangach Caerffili a allai elwa ar Gytundeb Dinesig neu fecanweithiau ariannu potensial eraill i gyflenwi buddion economaidd sylweddol

1.3

Bydd Cronfa Fuddsoddi'r Cytundeb Dinesig hefyd yn hwyluso'r gwaith o gyflwyno Metro De Ddwyrain Cymru, a fydd yn gwneud gwelliannau sylweddol i gysylltedd trwy gludiant cyhoeddus ar draws y rhanbarth. Mae gan Gaerffili'r potensial i fod yn ganolfan metro allweddol oherwydd ei lleoliad canolog yn y rhanbarth ac mae'r prif gynllun yn nodi sut gellir gwneud y mwyaf o'r cyfle hwn.

1.4

At hynny, dynodwyd ardal Caerffili ac Ystrad Mynach yn Ganolfan Strategol gan Dasglu'r Cymoedd fel ardal lle mae arian cyhoeddus yn cael ei ganoli i ddarparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd

1.5

Nod pennaf y prif gynllun hwn felly yw rheoli'r cyfleoedd cyffrous hyn a darparu fframwaith i symud Caerffili ymlaen i'r dyfodol. Mae'r prif gynllun hwn yn hyblyg

ac mae ganddo'r gallu i addasu i amodau economaidd a marchnad newidiol a bodloni gofynion ac uchelgeisiau'r sector preifat a chyhoeddus dros y cyfnod hwn trwy adolygiadau rheolaidd. Cydnabyddir bod yna rai prosiectau y gellir eu cyflawni o fewn y tymor byr i'r tymor canolig. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni nodau adfywio tymor hir, mae uchelgais i ailddatblygu nifer o safleoedd allweddol yn y dref.

1.6

Paratowyd yr Uwchgynllun yng nghyd-destun Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n gosod amcanion defnydd tir y Cyngor ar gyfer y fwrdeistref sirol yn y cyfnod hyd at 2021, ond mae hefyd yn gosod nodau tymor hwy i sicrhau bod y momentwm newid yn ymestyn i'r degawd nesaf. Mabwysiadwyd yr Uwchgynllun fel Canllawiau Cynllunio Atodol i'r CDLI mabwysiedig mewn cyfarfod y Cyngor ar 17eg Gorffennaf 2018.



1.7

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi paratoi 'Sail i Lwyddiant' - y Strategaeth Adfywio i'r fwrdeistref sirol, sy'n gosod pedair thema allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwynt, sef:

- Cefnogi Busnes
- Cysylltu Pobl a Lleoedd
- Cefnogi Pobl
- Cefnogi Ansawdd Bywyd

1.8

Mae llawer o'r prosiectau sydd wedi'u nodi yn yr Uwchgynllun wedi'u halinio â chynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd. Dylid nodi y daw cyfnod cynllunio y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd i ben yn 2021 a bydd angen adolygu'r cynllun i ddarparu fframwaith polisi ar gyfer y cyfnod ar ôl 2021. Yn ogystal, gall cynigion perthnasol gael eu cynnwys hefyd yn y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-

Ranbarth Caerdydd. Bydd angen adolygu'r Uwchgynllun er mwyn ystyried polisïau a chynigion perthnasol mewn cynlluniau datblygu yn y dyfodol ar yr adeg briodol.

1.9

Uwchgynllun Basn Caerffili yw'r gyntaf o nifer o strategaethau penodol i ardaloedd sy'n dynodi prosiectau a fydd yn helpu mynd i'r afael â materion ac amcanion allweddol a osodwyd yn y Strategaeth Adfywio ehangach.

Adran 2: Y Weledigaeth ar gyfer Basn Caerffili

2.1

Yn ganolog i'r Weledigaeth ar gyfer Caerffili mae'r gallu i wella'i brif rôl fel cyrchfan manwerthu isranbarthol a gwneud y mwyaf o'i botensial fel cyrchfan twristaidd allweddol. Mae digwyddiadau i randdeiliaid wedi dynodi nifer o themâu allweddol ar rôl y dref i'r dyfodol, sy'n cydnabod yr angen am adfywiad dan arweiniad manwerthu, rôl Caerffili fel cyrchfan twristaidd cysylltiedig â Chastell Caerffili a chydbwyso'r angen am ddatblygiad gyda chynnal a gwella ansawdd bywyd i'r trigolion presennol. Mae'r Weledigaeth ar gyfer Basn Caerffili'n gysylltiedig hefyd â'r Weledigaeth ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfan, fel y gosodwyd yn Strategaeth Adfywio'r Cyngor. Paratowyd y weledigaeth gan ystyried y saith nod llesiant a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

2.2

Mae'r Weledigaeth fel a ganlyn:

“Datblygu a gwella Basn Caerffili fel cyrchfan twristaidd yn ei hun. Bydd Caerffili’n dref ffyniannus, fywiog a wasanaethir yn dda gan y Metro, gyda darpariaeth ehangach i ymwelwyr a darpariaeth liw nos ehangach ac economi sy’n tyfu, wedi’i gosod o fewn amgylchedd naturiol deniadol. Bydd yn parhau i fod yn fan lle mae busnesau am symud, datblygu a thyfu ynddo a lle mae pobl am fyw, gweithio, ymweld a chymdeithasu ynddo.

Bydd hi’n gymuned lle caiff pawb eu grymuso i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth, lle dethlir cyflawniadau lleol a lle croeswir ymwelwyr a lle mae trigolion yn falch i ddweud o ble maen nhw’n

2.3

Bydd y Weledigaeth ar gyfer y dref yn cael ei chefnogi gan gyfres o Amcanion Strategol a fydd yn gyrru ei chyflawniad ac yn trosi'n uniongyrchol i gyfres o brosiectau a chamau sy'n:

- A. Gwella'r arlwy manwerthu yn y dref**
- adeiladu ar y sail manwerthu bresennol a dynodi cyfleoedd i ddatblygu unedau manwerthu modern newydd i ddenu adwerthwyr newydd a chyfleoedd i wella arlwy canol y dref;
- B. Creu cyrchfan fywiog a hygyrch i ymwelwyr** – nodi cyfleoedd i ehangu'r arlwy twristaidd yn y dref a chreu canol tref sydd ag economi ddydd a lliw nos gref y mae modd ei chyrraedd trwy bob math o drafnidiaeth gydag arwyddion clir a gwell cyfleusterau parcio a beicio;
- C. Gwneud y mwyaf o bresenoldeb Castell Caerffili** – manteisio ar bresenoldeb y castell a chreu canol tref mwy amrywiol ac unigryw sy'n denu

trigolion i siopa yn yr ardal ac felly'n arwain at gynnydd yn amser aros yr ymwelwyr, gan gynnwys llety o safon ar gyfer gwyliau byrion;

- CH. Gwella'r pyrrth allweddol** - ffocws ar adeiladau allweddol a ffyrdd o fynd i mewn i'r dref ac amrywio'r gymysgedd o ddefnyddiau sydd hefyd yn ymgorffori llety canol tref o safon sy'n ddeniadol i weithwyr ifanc proffesiynol;
- D. Creu'r amodau i'r ardal fod yn Ganolfan Metro ffyniannus** – gwneud y mwyaf o'r defnydd o'r ardal o gwmpas Gorsaf Caerffili er mwyn creu canolfan ffyniannus o fenter a man cyrraedd modern, wedi'i ddylunio'n dda i drigolion ac ymwelwyr i'r dref;
- DD. Gwella cysylltedd ym Masn Caerffili ac i ardaloedd eraill** – gwella cysylltiadau trwy bob math o drafnidiaeth ar draws Basn Caerffili ac i ardaloedd eraill;
- E. Darparu'r amodau i gryfhau cyfleoedd gwaith** – rhoi cefnogaeth i fusnesau a

sefydliadau yn yr economi leol ehangu a darparu ystod o swyddi, a meithrin gallu i wella cyfraniad yr economi sefydliadol;


- F. Cefnogi datblygiad tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ynghyd â'r isadeiledd angenrheidiol ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac mewn lleoliadau cynaliadwy mewn aneddiadau** – nodi cyfleoedd preswyl allweddol y gellir eu datgloi ar safleoedd tir llwyd a safleoedd eraill sy'n unol â pholisi cynllunio, gan gynnwys fel rhan o ddatblygiadau defnydd cymysg;
- FF. Darparu lefel addas o gyfleusterau hamdden ac addysg gymunedol i gefnogi lefel botensial y twf yn y boblogaeth a thai ym Masn Caerffili** – nodwch y cyfleusterau allweddol sy'n darparu gwasanaethau pwysig i'r boblogaeth gan gynnwys y ganolfan hamdden, lle adloniant a chwarae awyr agored ac ysgolion a sicrhau bod y cyfleusterau hyn yn bodloni anghenion y dyfodol;

G. Sicrhau bod hygrychedd i bawb yn cael ei ymgorffori ym mhob cynllun gwella - amcan croestoriadol sy'n cydnabod bod pobl yn anabl yn sgil cynllunio gwael, gwasanaethau anodd eu cyrraedd ac agweddau pobl eraill yn fwy na'u nam.

NG. Sicrhau y gall holl gymunedau Caerffili ymgysylltu ac elwa ar yr Uwchgynllun – sicrhau bod y cynigion a ddynodwyd yn yr Uwchgynllun yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Basn Caerffili, yn enwedig Parc Lansbury, ac y gall y trigolion hynny gymryd rhan yn y broses.



Ffigur 1: Map o Fasn Caerffili



Adran 3: Ardal yr Astudiaeth

3.1

Mae Basn Caerffili yn rhan ddeheuol Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n cynnwys tref Caerffili (sy'n ymgorffori wardiau Morgan Jones, Sant Iago, St Martin Sant a Phenyrheol), ynghyd â Chwmaber (Abertridwr a Senghenydd) i ogledd-orllewin y dref, Llanbradach i'r gogledd a chymunedau Bedwas, Tretomas, Machen, Graig y Rhacca, Waterloo, Rhydri a Draethen i gyfeiriad y dwyrain. Nododd Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2015 fod gan Fasn Caerffili boblogaeth o 56,300 o bobl.


3.2

Mae'r dref yn uniongyrchol i gyfeiriad y gogledd o Gaerdydd gyda chysylltedd da ar y ffyrdd (A469/A470) i Gaerdydd a'r M4 a gwasanaeth rheilffyrdd mynych (bob 15 munud) i Gaerdydd. Mae pedair gorsaf rheilffordd ym Masn Caerffili, sy'n rhan o linell Cwm Rhymni – Llanbradach, Eneu'r Glyn a


Pharc Churchill, Aber a Chaerffili, gyda'r ddwy orsaf olaf yn cynnig cyfleusterau parcio a reidio mawr. Ceir cyswllt ffordd i Gasnewydd hefyd (trwy'r A468) a dynodir cynigion fel rhan o Gam 3 prosiect y Metro i adfer llinell rheilffordd Caerffili i Gasnewydd at ddibenion cludiant cyhoeddus.

3.3

Er mai ardal astudiaeth y Prif Gynllun yw Basn ehangach Caerffili, mae llawer o'r cyfleoedd adfywio a datblygu allweddol yng nghanol y dref. Mae'r mewnosodiad isod yn nodi ffin canol y dref fel y dynodwyd yn y CDLI mabwysiedig. Y brif swyddogaeth fan hyn ar hyn o bryd yw manwerthu, ynghyd â'r ardaloedd yn uniongyrchol o'i amgylch lle bodola nifer o gyfleoedd adfywio a datblygu eraill.



Ffigur 2: Map o Ganol Tref Caerffili



Adran 4: Y Cyd-destun

4.1

Wrth ddarparu'r cyd-destun i'r prif gynllun, mae'n bwysig deall y cyfleoedd allweddol sy'n bodoli ym Masn Caerffili ar hyn o bryd.

Cyfleoedd

- **Cytundeb Dinesig Prifddinas Rhanbarth**

Caerdydd: Bydd y Cytundeb Dinesig ar gyfer y rhanbarth yn darparu lefel ddigynsail o gyllid i brosiectau gyda'r nod o hyrwyddo twf economaidd a chreu swyddi ar hyd y rhanbarth, gan gynnwys mynd i'r afael â'r bylchau a'r prinderau mewn sgiliau. Er mai'r nod cyffredinol yw creu twf economaidd, a bydd rhan sylweddol o'r cyllid o £1.25 biliwn yn cael ei ddefnyddio i wireddu'r nod hwn, bydd y gyfran fwyaf o'r cyllid yn cael ei defnyddio i gyflwyno Metro Rhanbarth y Brifddinas. Cysyniad y Metro yw system gludiant ranbarthol sy'n darparu rhwydwaith cludiant ansawdd uchel, dibynadwy, effeithlon ac economaidd gynaliadwy

i gefnogi twf economaidd arfaethedig y rhanbarth. Mae lleoliad Caerffili, yng nghalon y rhanbarth, ynghyd â'i gyfleoedd economaidd a chlodiant, yn ei roi mewn sefyllfa gref i gyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion Cytundeb y Brifddinas a'r Metro a fyddai'n cyflawni manteision sylweddol o'r cyllid hwn.

- **Ein Cymoedd, Ein Dyfodol:** Mae'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru yn dynodi Caerffili, ynghyd ag Ystrad Mynach, fel Canolfan Strategol sy'n canolbwyntio ar dai, twristiaeth a datblygiad diwylliannol, ailddatblygiad canol y dref a chreu canolfannau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r Metro. Bydd hon yn ardal lle mae arian cyhoeddus yn cael ei ganoli i ddarparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd.
- **Arwynebedd Llawr Manwerthu:** Amcangyfrifir bod arwynebedd y llawr manwerthu presennol yng nghanol tref

Caerffili yn 50,000 metr sgwâr gros gyda 24,000 metr sgwâr gros yn Gallagher Retail Park. Mae gan Gaerffili gynrychiolaeth nifer o adwerthwyr cenedlaethol sy'n cynnwys Argos, Sports Direct, Superdrug a Peacocks ac mae nifer flynyddol yr ymwelwyr dros y tair blynedd diwethaf wedi aros yn sefydlog ar 1.5 miliwn y flwyddyn. Cyfyngir ar nifer yr adwerthwyr cenedlaethol sy'n gallu lleoli yn y dref gan faint a natur yr unedau preswyl presennol, ond mae potensial i ehangu ar ystod yr adwerthwyr niferus yng nghanol y dref trwy ail-gyflunio ac ailddatblygu'r tir presennol.

- **Gwerthiant Manwerthu:** Oherwydd bod yr ardal mor agos i Gaerdydd, ceir colled fawr o ran gwerthiant manwerthu i'r tu allan i'r fwrdeistref sirol. Mae'r Shopper Attitude Survey (2014) yn nodi bod all-lif enfawr o wariant ar nwyddau, fel dillad ac esgidiau, celfi a charpedi. Dim ond 20% o'r trigolion sy'n siopa mewn canolfannau yn

ffin y fwrdeistref sirol ar gyfer nwyddau heb fod yn swmpus a dim ond 33% ar gyfer nwyddau swmpus. Mae potensial i dref Caerffili gryfhau ei safle fel canolfan isranbarthol trwy gynyddu'r cyfleoedd i siopa yn y dref er mwyn cadw gwariant.

- **Twristiaeth:** Castell Canoloesol y dref o'r 13eg Ganrif yw'r un mwyaf yng Nghymru a'r ail fwyaf yn Ewrop, ac mae'n atyniad arwyddocaol i dwristiaid, gan ddenu 130,000 o ymwelwyr yn 2016. Fodd bynnag, mae'r amser aros ymhlith ymwelwyr yn isel a bodola gyfle sylweddol i ehangu'r arlwy twristaidd i gynyddu'r amser aros a gwariant yr ymwelwyr yn y dref. Mae Caerffili'n cynnal nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus rheolaidd sy'n denu ymwelwyr gan gynnwys Gwyl Fwyd Caerffili, Y Caws Mawr a Ras 10k Caerffili. Mae cyfleoedd i ehangu'r rhaglen ddigwyddiadau ymhellach a datblygu lle digwyddiadau ychwanegol yn y dref..
- **Economi Liw Nos:** Mae gwelliannau i lety a'r economi hamdden a lliw nos (gan gynnwys tafarndai, bwytai a llety) yn

parhau'n hanfodol, ynghyd â'r gwelliannau parhaus i ganol y dref a'r amgylchedd. Mae'r gwaith o glystyru'r gwasanaethau hyn o gwmpas y ganolfan dwristaidd allweddol, yn yr achos hwn y castell, yn cyflwyno cyfle i gynyddu'r amser aros yn y dref.

- **Cyfleusterau Hamdden:** Mae'r ganolfan hamdden bresennol yn heneiddio ac mae angen ei hadnewyddu neu ddisodli er mwyn gwella gwead yr adeilad, lleihau'r rhwymedigaethau cynnal a chadw parhaus ac yn bwysig, sicrhau bod arlwy'r cwsmeriaid yn cael ei foderneiddio, ei amrywio a'i fod yn gallu bodloni galw'r dyfodol (h.y. diogelu i'r dyfodol). Bydd y cyfleoedd i adnewyddu neu ailddatblygu'r Ganolfan yn cael eu harchwilio. Yn ogystal, bydd lle adloniant a chwarae awyr agored newydd yn cael eu darparu yng Nghaerffili fel rhan annatod o'r datblygiadau tai newydd.

4.2

Er mwyn hyrwyddo newid, mae'n bwysig cydnabod yr heriau y mae'r dref yn eu hwynebu wrth gyflawni'r Weledigaeth.

Dynodwyd yr heriau hyn trwy ymgynghori â rhanddeiliaid.

Heriau

- **'Dwy dref':** Mae dwy ran ar wahân i Gaerffili: canolfan siopa Castle Court, a agorodd yn y 1990au, sy'n cynnig ystod o unedau mwy o faint sy'n cael eu preswyllo'n bennaf gan adwerthwyr cenedlaethol; ac ardal 'pen ucha'r dref' ar Heol Caerdydd, sy'n cynnwys nifer o unedau siopa llai o faint gydag ystod o wasanaethau a defnyddiau A3. Ceir diffyg cysylltiad rhwng y ddwy ardal gan fod y bryn serth yn cael ei ystyried yn rhwystr corfforol a seicolegol i symud rhyngddynt. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2007 ar gyfer datblygiad defnydd cymysg newydd ar 'ben ucha'r dref' oedd yn cynnwys arwynebedd llawr manwerthu A1, defnyddiau A3, swyddfeydd, hamdden a fflatiau 6,000 metr sgwâr. Ni weithredwyd hwn o ganlyniad i'r newid mewn amgylchiadau economaidd ac, ers hynny, ychydig ddiddordeb y mae adwerthwyr cenedlaethol wedi dangos mewn gosod siopau ar Heol Caerdydd

- **Cysylltedd:** Bydd llawer o'r ymwelwyr sy'n teithio i'r dref yn cyrraedd Cyfnewidfa Caerffili heb ymdeimlad o gyrraedd gan fod y berthynas rhwng y Gyfnewidfa, y dref a'r castell yn eithriadol o wael.
- **Cyllid:** Bydd angen i lawer o gynlluniau adfywio gael eu cefnogi gan gyllid grant, sy'n gyfyngedig. Bydd colli cyllid yr UE o ganlyniad i Brexit yn lleihau'r cyfleoedd am geisiadau am gyllid. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut bydd hyn yn cael ei wrthbwysu gan Lywodraeth y DU.
- **Economi Liw Nos:** Mae'r economi liw nos presennol yn wael. Er bod sawl tafarn a chynhelir digwyddiadau rheolaidd yn Neuadd y Gweithwyr Caerffili, mae dewis cyfyngedig o adloniant gyda'r hwyr a bwytai yn y dref. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i breswylwyr deithio y tu allan i Gaerffili er mwyn mynd i'r sinema neu fowlio.
- **Ansawdd yr Aer:** Dynodwyd rhan o Gyngor Tref Caerffili yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) oherwydd y lefelau



uchel o nitrogen deuocsid, a ddigwydd yn bennaf o ganlyniad i draffig yn ciwio. Paratowyd Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer, sy'n nodi dewisiadau ar gyfer lliniaru hyn. Bydd angen rhoi ystyriaeth ddyledus i effaith unrhyw gynigion ar symud traffig a'r canlyniadau potensial i'r AQMA.

- **Parcio:** Mae nifer o feysydd parcio'n gwasanaethu'r dref. Mae'r defnydd cyffredinol o feysydd parcio talu ac arddangos yn Heol y Cilgant, Y Twyn, Heol Bedwas a Teras yr Orsaf yn cynnig cyfanswm o 287 o leoedd, y mae 19 ohonynt at ddefnydd yr anabl. Yno hefyd mae maes parcio aros am amser cyfyngedig am ddim yn Castle Court, ond mae hwn at ddefnydd cwsmeriaid Castle Court yn unig. Ceir lle parcio cyfyngedig ar y stryd yn ardal Heol Caerdydd, wrth i'r lle parcio ar y strydoedd cefn oddi ar Heol Caerdydd wrthdaro gyda'r lle parcio i drigolion. Ystyrir bod y diffyg lle parcio sydd ar gael yng nghanol y dref yn cael effaith sylweddol ar nifer yr ymwelwyr i ganol y dref.

- **Manwerthu y tu allan i'r dref:** Mae Parc Manwerthu Gallagher wrth ymyl Caerffili wedi'i ddynodi ar hyn o bryd at ddibenion warysau manwerthu (nwyddau swmpus). Fodd bynnag, ceir nifer o unedau gwag ar y safle a cheir pwysau i lacio'r cyfyngiadau presennol i alluogi dewis ehangach o adwerthwyr i symud i'r safle. Er y byddai buddsoddiad ym Masn Caerffili'n cael ei groesawu, hwyrach y bydd canlyniadau anfwriadol yn sgil llacio unrhyw gyfyngiadau yn Gallagher, oherwydd gallai adwerthwyr presennol canol y dref ddewis symud allan o'r dref, lle mae lle parcio mwy digonol, mewn lleoliad gwell ac am ddim, gan arwain at gynnydd yng nghyfraddau'r lleoedd gwag yng nghanol y dref.

- **Pwysau am dai:** Mae Basn Caerffili'n ardal lle mae'r galw am dai yn uchel. Yn sgil y diffyg cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai (fel sy'n ofynnol gan y polisi cynllunio cenedlaethol), mae'r ardal yn agored i geisiadau am dai ar safleoedd sydd heb eu clustnodi yn y cynllun datblygu lleol ar hyn o bryd.

- **Canolfan hamdden sy'n heneiddio anaddas i'r diben yn y cyd-destun tymor hir:** Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r ganolfan hamdden bresennol yn heneiddio gyda rhwymedigaethau cynnal a chadw uchel ac yn ei ffurf bresennol nid yw'n gallu cynnig yr ystod amrywiol o wasanaethau y gofynnir amdanynt yn yr 21ain ganrif. Mae angen buddsoddiad yn y ganolfan er mwyn i'r gwasanaeth a gyflwynir bod yn ymatebol i boblogaeth sy'n newid a'i ofynion modern.

- **Perygl o lifogydd:** Nifer o ddyfrffosydd, gan gynnwys Afon Rhymni, sy'n llifo drwy Fasn Caerffili a cheir rhannau o'r ardal ddinesig sydd mewn perygl o lifogydd. Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol yn hyrwyddo ymagwedd ragofalus wrth ystyried cynigion datblygu mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd a gallai hyn gyfyngu ar ddatblygiad rhai safleoedd yn yr ardal.

Adran 5: Y Strategaeth Ddatblygu

At beth ddylai Prif Gynllun Caerffili fod yn anelu?

5.1

Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion Strategol, mae'n bwysig gosod y strategaeth ddatblygu mewn perthynas â'r defnyddiau tir allweddol ym Masn Caerffili a chanol y dref yn arbennig, gan ystyried strategaeth y CDLI mabwysiedig, uchelgeisiau rhanbarthol a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n ffurfio'r cyd-destun. Mae cyflawniad penodol i safle'r prif gynllun wedi'i osod yn Adran 6.

Manwerthu

5.2

Mae manwerthu'n hollbwysig i rôl a swyddogaeth y dref ac yn brif ffynhonnell cyflogaeth. Ceir tystiolaeth o alw cudd am manwerthu ychwanegol yng Nghaerffili i atal gollyngiad gwariant y tu allan i'r fwrdeistref sirol. Mae'r dadansoddiad yn Adran 4 yn cydnabod yr heriau ar gyfer lleoliad manwerthu i'r dyfodol. Mae gan ganolfan siopa Castle Court, Heol Caerdydd a Pharc

Manwerthu Gallagher y potensial i ehangu'r arlwy manwerthu, ond mae'n bwysig deall rôl pob un o'r ardaloedd hyn:

- **Castle Court** - dyma brif ardal manwerthu'r dref gyda nifer o adwerthwyr cenedlaethol gyda chyfraddau isel o leoedd gwag. Dylai'r ardal greiddiol hon barhau i fod yn ffocws i adwerthwyr mawrion gyda dewisiadau i ddarparu unedau ychwanegol sy'n bodloni gofynion y preswylwyr modern yn cael eu harchwilio.
- **Heol Caerdydd** - ar hyn o bryd, mae'r ardal hon yn cynnwys cymysgedd o ddarparwyr gwasanaeth, defnyddiau A3 ac adwerthwyr annibynnol neu adwerthwyr amryfal sy'n gwerthu nwyddau gwerth isel. Mae'r cyfraddau lleoedd gwag yn uwch yn y rhan hon o'r dref. Byddai maint yr unedau'n gweddu'n fwy i fusnesau llai o faint ac mae'n afrealistig i'r ardal hon geisio cystadlu â Castle Court. Ystyrir felly y dylai fod atgyfnerthiad o rôl y rhan hon o'r dref, a ffocws ar ddatblygu cymysgedd o

siopau annibynnol llewyrchus, darpariaeth gwasanaethau a chaffis/bwytai, ynghyd â fflatiau. Bydd gan y Farchnad Dan Do yn arbennig, fwy o rôl i'w chwarae wrth gyflawni hyn.

- **Parc Manwerthu Gallagher** - dylai prif swyddogaeth yr ardal hon barhau fel warysau manwerthu i sicrhau nad yw rôl a swyddogaeth canol y dref yn cael eu tanseilio. Fodd bynnag, bydd angen cydbwysu hyn yn erbyn manteision buddsoddiad gan adwerthwyr cenedlaethol sy'n methu lleoli yng nghanol y dref yn rhinwedd y diffyg unedau addas sydd ar gael.
- **Manwerthu yn y gymdogaeth** - yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol, nid yw'r strategaeth yn hyrwyddo darpariaeth y datblygiad manwerthu mawr y tu allan i ardaloedd manwerthu dynodedig, ond mae datblygiad unedau manwerthu llai o faint i gefnogi anghenion lleol yn rhan allweddol o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

Twristiaeth

5.3

Mae angen gweithio'n agosach gyda Cadw er mwyn trawsnewid profiad ymwelwyr Castell Caerffili i fod yn fwy trochedig a rhyngweithiol, er mwyn cynyddu atynioldeb y castell i ystod ehangach o ymwelwyr a chynyddu'r amser aros yn y castell, tir y castell ac yn bwysig yng nghanol y dref.

5.4

Mae'r Prif Gynllun hefyd yn ceisio ehangu'r arlwy twristaidd yng nghanol y dref i annog ymwelwyr yn ystod y dydd i aros yn hwy a gwario mwy mewn busnesau yng Nghaerffili. Yn ogystal, mae'n ceisio archwilio cyfleoedd newydd am lety ychwanegol yng nghanol y dref er mwyn i ymwelwyr gael dewisiadau i aros am ylliau byr.

5.5

Mae potensial hefyd i fanteisio ar y farchnad gweithgareddau twristaidd gref yn Ne Cymru trwy ddarparu llety a chyfleusterau priodol ym Masn ehangach Caerffili.

Defnyddiau Hamdden a Chymunedol

5.6

Ceir nifer o leoedd agored ffurfiol ac anffurfiol allweddol sydd wedi'u diogelu at ddefnydd hamdden a dylid archwilio cyfleoedd i wneud y mwyaf o botensial yr ardaloedd hyn er budd adloniant a chymunedau ac i ehangu eu hatynioldeb i ymwelwyr i'r ardal. Rhoddir ystyriaeth ar hyn o bryd i adnewyddu neu ddisodli Canolfan Hamdden Caerffili, a leolir ym Mharc Virginia a dylid cael hyblygrwydd addas i alluogi ar gyfer datblygu canolfan hamdden ar safle amgen priodol mewn man arall ar yr amod ei fod yn hygyrch.

Cludiant

5.7

Mae'r cyfleoedd i annog teithio gweithgar trwy well llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn bwysig a bydd y Prif Gynllun yn ystyried y gwelliannau a ddynodwyd fel rhan o'r Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol. Yn ogystal â hyn, mae anallu'r gwasanaethau rheilffyrdd i gario beiciau, yn enwedig ar adegau prysur, yn golygu nad yw beicio i'r gwaith gan ddefnyddio'r rheilffyrdd yn

ddewis ymarferol ar y cyfan. Bydd angen i'r Prif Gynllun ystyried gwella'r ddarpariaeth i barcio beiciau'n ddiogel, ac o bosibl, cyflwyno cyfleuster llogi beiciau ar y stryd/yn yr orsaf i alluogi beicwyr i adael beiciau a defnyddio beiciau llogi i hwyluso'u gallu i symud ar y rheilffyrdd.

5.8

Mae Metro De Ddwyrain Cymru'n hanfodol i wella cludiant cyhoeddus a bydd y Prif Gynllun yn edrych i fanteisio ar gyfleoedd i greu swyddi a gwella harddwch canolfan Metro sylfaenol y dref yng Nghyfnwiddfa Caerffili. Mae'n edrych hefyd i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd parcio a theithio yn y gorsafoedd presennol.

5.9

Mae'r CDLI mabwysiedig yn diogelu coridor priffyrdd ar gyfer adeiladu Ffordd Osgoi De-ddwyrain Caerffili o bosibl. Mae adeiladu ffordd osgoi'n ddewis potensial i leddfu tagfeydd, ac mae Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Caerffili'n cyfeirio ato fel mesur i wella ansawdd aer yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Mae'n bwysig nad yw unrhyw

ddatblygiad i'r dyfodol sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu tir o gwmpas safle Ness Tar yn rhagfarnu unrhyw lwybr i'r ffordd osgoi i'r dyfodol.

5.10

Yn ogystal, mae'r CDLI mabwysiedig yn nodi nifer o welliannau eraill i'r rhwydwaith priffyrdd strategol sy'n angenrheidiol i leddfu tagfeydd. Mae adolygiadau traffig a chludiant rheolaidd yn angenrheidiol er mwyn ystyried effaith gronnol y datblygiad a gwelliannau i'r seilwaith cludiant ar lif y traffig ac ar ansawdd yr aer yng nghanol y dref.

Cyflogaeth

5.11

Mae angen am strategaeth barcio yng nghanol y dref i sicrhau bod llefydd parcio digonol yn y lleoliadau iawn i gefnogi'r Weledigaeth ar gyfer yr ardal.

5.12

Mae'r Prif Gynllun hefyd yn dynodi tir ychwanegol ar gyfer cyflogaeth yn y canolfan Metro ac o'i hamgylch yng Ngorsaf Caerffili

a Gorsaf Aber. Rhagwelir y bydd hyn trwy ddarparu datblygiad masnachol a swyddfeydd newydd sy'n bodloni anghenion busnesau modern. Bydd creu swyddi'n agos at ganol y dref yn esgor ar fuddiannau economaidd i fusnesau yn y dref ac yn bwysig, bydd yn darparu cyflogaeth i bobl sy'n byw yn yr ardal.

Preswyl

5.13

Mae'r CDLI mabwysiedig yn hyrwyddo strategaeth ym Masn Caerffili o atgyfnerthu datblygiad yn ffiniau'r anheddiad presennol a manteisio ar safleoedd tir llwyd lle bo'n briodol. Bu'r strategaeth hon yn llwyddiannus ac mae llawer o safleoedd tir llwyd arwyddocaol wedi'u hailddatblygu ar gyfer tai. Mae safleoedd tir llwyd yn parhau, gan gynnwys y rhai mwyaf nodedig yng Nglofa'r Windsor, Gweithfeydd Waterloo, Glofa Bedwas a Ness Tar, a dylai'r rhain barhau i gael eu dynodi'n gyfleoedd datblygu, gyda'r ddau safle olaf yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol i'w datgloi oherwydd y costau adfer a'r gofynion isadeiledd.

5.14

Yn ogystal â'r safleoedd mawrion hyn, gallai ailddatblygiad y safleoedd yng nghanol y dref gynnig cyfle am ddatblygiad defnydd cymysg, gan gynnwys fflatiau. Bydd datblygiad unedau preswyl newydd yng nghanol y dref: yn helpu amrywio'r stoc tai presennol yn y dref; yn hyrwyddo tai mewn lleoliadau cynaliadwy a wasanaethir yn dda gan gludiant cyhoeddus; ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i ganol y dref. Mae'r math hwn o lety'n debygol o apelio at weithwyr ifanc proffesiynol sy'n methu fforddio'r prisiau tai ar gyfer llety tebyg yng Nghaerdydd.

5.15

Mae'r Prif Gynllun yn cydnabod bod pwysau datblygu ar nifer o safleoedd maes glas ym Masn Caerffili. Bydd angen ystyried addasrwydd pob safle yn ôl ei haeddiant, gan ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol, gan gynnwys cynaliadwyedd y lleoliad a'r angen i gynyddu'r cyflenwad tir tai.



Amgylchedd Naturiol

5.16

Cydnabyddir bod Basn Caerffili yn dirwedd unigryw ac amrywiol ag iddo dreftadaeth naturiol gyfoethog. Ceir hefyd mannau agored o bwys mewn ardaloedd mwy trefol. Mae gosodiad naturiol Caerffili a chymunedau eraill ym Masn Caerffili yn ased gwerthfawr sy'n gallu mwyafu cyfleoedd am dwristiaeth y mae ei breswylwyr yn ei werthfawrogi'n fawr. O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau a bydd hyn yn ystyriaeth allweddol wrth baratoi cynigion manwl. Ceir polisïau yn y CDLI sy'n ceisio amddiffyn nodweddion arbennig yr amgylchedd naturiol a mannau agored allweddol, yn ogystal ag amddiffyn yr amgylchedd dŵr. Nid yw'r polisïau hyn yn ceisio atal datblygiad ond, yn hytrach, maent yn ceisio sicrhau mai datblygiad priodol yn unig a gaiff ei ganiatáu lle na fydd effaith annerbyniol.

5.17

Yn ogystal â'r safleoedd mawrion hyn, gallai ailddatblygiad y safleoedd yng nghanol y dref gynnig cyfle am ddatblygiad defnydd cymysg, gan gynnwys fflatiau. Bydd datblygiad unedau preswyl newydd yng nghanol y dref: yn helpu amrywio'r stoc tai presennol yn y dref; yn hyrwyddo tai mewn lleoliadau cynaliadwy a wasanaethir yn dda gan gludiant cyhoeddus; ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i ganol y dref. Mae'r math hwn o lety'n debygol o apelio at weithwyr ifanc proffesiynol sy'n methu fforddio'r prisiau tai ar gyfer llety tebyg yng Nghaerdydd.

Ynni Adnewyddadwy

5.18

Anogir cyfleoedd i gynnwys technolegau adnewyddadwy mewn cynigion ar gyfer datblygu lle bo'n briodol. Mae datblygu pwyntiau trydanu i gerbydau yng nghanol y dref yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â materion ansawdd aer a dylid ymchwilio iddo.

Adran 6: Fframwaith y Prif Gynllun

A - Gwella'r arlwy manwerthu yng nghanol y dref

Mae'r adran hon yn amlinellu prosiectau a chynigion safleoedd penodol a fydd, ar y cyd, yn cyflwyno Gweledigaeth ac Amcanion. Mae nifer o'r prosiectau'n gysylltiedig ac felly gall gweithredu rhai prosiectau fod yn ddibynnol ar gynigion eraill yn datblygu'n ddiweddarach neu'n gyfochrog.

Gogledd Canol Y Dref

6.1

Cynigia ran ogleddol canol y dref gyfle sylweddol i wneud y mwyaf o'r defnydd tir, cynyddu'r arwynebedd llawr manwerthu a chreu adeiladau tirnod modern deniadol mewn safle amlwg gyferbyn â Chastell Caerffili. Gellid cyflawni hyn trwy ailddatblygu sawl safle allweddol.

A-1 ac A-2 Maes Parcio Morrisons

6.2

Mae archfarchnad Morrisons yn angori ochr ogleddol Canol Tref Caerffili. Ar hyn o bryd, mae maes parcio'r archfarchnad, sydd dan berchnogaeth breifat, yn lletya 540 o leoedd, gan ymestyn o ddwyrain canolfan siopa Cwrt y Castell i ogledd Morrisons gyda chyfanswm arwynebedd o 1.52 Ha.

Egwyddorion Datblygu

- Bydd Cwrt y Castell (A-1) yn cael ei ddatblygu ar gyfer unedau preswyl modern o faint priodol a allai ddenu adwerthwyr amryfal i ganol y dref. Gallai hyn fod yn rhan o ddatblygiad defnydd cymysg ar gyfer adwerthu ar y llawr gwaelod a swyddfeydd/fflatiau uchod.
- Cyfle i ddatblygu maes parcio aml-lawr modern fel nodwedd dylunio allweddol ar ran ogleddol y maes parcio (A-2) sy'n cynnig mwy o ddarpariaeth barcio ar gyfer yr archfarchnad a chanol y dref ehangach. Dylai'r maes parcio fod yn

rhan o amgylchedd deniadol wedi'i dirlunio sy'n annog ymwelwyr o Barc Lansbury ac ardaloedd tai eraill i gyfeiriad y gogledd a'r dwyrain o ganol y dref. ehangach. Dylai'r maes parcio fod yn rhan o amgylchedd deniadol wedi'i dirlunio sy'n annog ymwelwyr o Barc Lansbury ac ardaloedd tai eraill i gyfeiriad y gogledd a'r dwyrain o ganol y dref.

- Archwilio'r cyfle i wneud y mwyaf o faint y safle datblygu trwy symud i adeiladau neu dir arall sy'n cael eu tanddefnyddio yn yr ardal.
- Dylid paratoi cyfarwyddyd datblygu sy'n gosod y manylion i gefnogi'r cais.


A - 3

Triongl Heol Ton y Felin Road a Stryd Castell

6.3

Mae cyfle ailddatblygu allweddol o gwmpas y safle siâp triongl ar frig cyffyrdd Heol Ton y Felin, Heol Bedwas a Stryd y Castell. Ar hyn o

Ffigur 3: Map o ran Ogleddol Canol y Dref



bryd, mae cymysgedd o eiddo masnachol a busnesau yn yr ardal, ynghyd â maes parcio talu ac arddangos, ond mae'r datblygiad yn ddigyswllt ac nid yw'r unedau presennol yn ychwanegu at leoliad y castell nac yn darparu porth deniadol i'r ganolfan manwerthu.

Egwyddorion Datblygu

- Cyfle am adeilad tirnod ansawdd uchel sy'n cynnig cymysgedd o ddefnyddiau – llawr gwaelod A1/A3 a'r swyddfeydd/fflatiau uwchben.
- Gwella parth y cyhoedd a blaenoriaethu'r llwybrau i gerddwyr
- Dylai adeilad rhestredig Neuadd a Sefydliad y Gweithwyr Caerffili barhau fel adeilad canolog annatod.
- Ymchwilio i gyfleoedd i symud meddygfa Tonyfelin a'r maes parcio cyfagos i gynyddu maint y safle datblygu.

Heol Caerdydd A Phen Ucha'r Drep

6.4

Mae gan ardal Heol Caerdydd y potensial i fod yn gymysgedd ffyniannus o adwerthwyr annibynnol a gefnogir gan ystod o ddarparwyr gwasanaethau a chaffis / bwytai A3, ond roedd angen buddsoddiad sylweddol i wella gwedd trefol y rhan hon o'r dref a chreu amgylchedd y mae pobl am ymweld ag ef a threulio amser a gwario arian ynddo.

A - 4 Heol Caerdydd (Rhwystrau rhwng Clive Street a Park Lane)

6.5

Heol Caerdydd yw'r dramwyfa allweddol rhwng yr orsaf a'r castell ac mae'r adeiladau ar ochr orllewinol y ffordd yn edrych yn annymunol a cheir diffyg cydlynad rhyngddynt.

6.6

Mae hen siop tri llawr Ladies Lounge wrth y gyffordd â Stryd Pentrebane a Heol Caerdydd yn adeilad tirnod yng nghanol y dref, sydd wedi adfeilio'n ddifrifol ac mae bellach yn amharu'n helaeth ar y strydlun. Bodola ganiatâd cynllunio i drawsnewid y lloia uchaf


yn fflatiau ond mae cyflwr yr adeilad yn wael iawn. Mae'r Cyngor wedi dechrau ar y broses o weithredu dan adran 215 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, sy'n rhoi grym i'r Cyngor ofyn am gynnal a chadw'r eiddo'n gywir. Bydd y buddsoddiad yn adnewyddiad yr eiddo pwysig hwn yn gwella ymddangosiad Heol Caerdydd yn sylweddol.

Egwyddorion Datblygu

- Yn y tymor byr, bydd y cyfleoedd i wella ymddangosiad ffasadau'r adiladau ar Heol Caerdydd trwy driniaethau wedi'u teilwra i'r ffasâd mewn gwahanol weadau a lliwiau'n cael eu hannog.
- Lle mae'r siopau'n wag, archwiliwch y cyfleoedd gyda'r perchnogion i ddefnyddio'r eiddo at ddefnyddiau dros dro, fel siopau gwib neu orielau celf.
- Yn y tymor hwy, byddai ailddatblygiad cynhwysfawr yr unedau ar Heol Caerdydd yn gwella'r cyfoeth gweledol yn sylweddol ac yn cynnig cyfle i greu datblygiad

Ffigur 4: Map o Heol Caerdydd a Phen Ucha'r Dref

0 0.0425 0.085 0.17 Miles



Caerphilly County Borough Council, 100025372, 2018.

defnydd cymysg ansawdd uchel sy'n cwrmpasu defnyddiau llawr gwaelod A1 sy'n addas i adwerthwyr bach i ganolig eu maint, caffis/bwyta i darparwyr gwasanaeth, ynghyd â chymysgedd o swyddfeydd bach ac/neu fflatiau ar loriau uwch.

A - 5 1-20 Heol Caerdydd

6.7

Mae'r unedau manwerthu yn syth i gyfeiriad y de o Gastell Caerffili o gynllun ansawdd isel ac yn darparu cefnlen annymunol ac anneniadol i'r castell. Tra bo bwyty llwyddiannus newydd agor uwchlaw Cymdeithas Adeiladu'r Principality, nid oes unedau eraill yn manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan eu safle sy'n edrych dros y Castell. Mae ardaloedd sylweddol yn yr adeiladau a'r tu ôl iddynt sy'n cael eu tanddefnyddio fel ardaloedd gwasanaethu ac/neu barcio.

Egwyddorion Datblygu

- Yn y tymor byr, mae angen gwella ffasadau eiddo presennol o flaen y castell.

- Byddai ailddatblygiad tymor hwy 1-20 Heol Caerdydd fel parêd o siopau'n galluogi ar gyfer safon dyluniad uwch i adlewyrchu eu lleoliad amlwg a'u hagosrwydd amlwg at y castell.
- Mae potensial i ailddatblygu'r ardal fel canolfan siopa tebyg i arcêd sy'n debyg i ardal Arcades Ardal y Castell¹ yng Nghaerdydd, sy'n cynnwys siopau neu gaffis annibynnol bach ar y llawr gwaelod, gyda thai bwyta, swyddfeydd neu leoedd preswyl i ychwanegu atynt ar y lloriau uchaf, sy'n manteisio ar y golygfeydd yn edrych dros y castell. Mae'r math hwn o manwerthu'n debygol o apelio at dwristiaid a bydd yn cynnig cyfleoedd i fusnesau newydd mewn safle eiconig.
- Dylid ychwanegu at ddefnyddiau A1 y llawr gwaelod sy'n bodloni gofynion adwerthwyr cenedlaethol gan ddefnydd A3 ar y lloriau uchaf neu ddefnydd preswyl, sy'n manteisio ar y golygfeydd yn edrych dros y castell.

- Bydd gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol a'r arlwy manwerthu yn yr ardal yn gwella'r cysylltiad rhwng Castle Court a Heol Caerdydd.

A - 6 Marchnad Dan Do Caerffili

6.8

Mae'r farchnad dan do wedi bod yng Nghaerffili er 1927 ac fe'i hystyrir yn rhan allweddol o hanes y dref. Mae'r adeilad preifat hwn yn cynnig y llety rhent isel y mae ei angen ar lawer o fusnesau manwerthu newydd ac mae'n rhan bwysig o'r economi sylfaenol. Fodd bynnag, mae nifer yr ymwelwyr yn isel oherwydd ei leoliad wrth ymyl y stryd fawr, y galw newidiol mewn siopa a mynediad gwael. Yn ogystal, mae ganddi'r diffyg gwerth pensaernïol ac amlygrwydd sydd gan farchnadoedd dan do mewn trefi eraill (e.e. Caerdydd, Y Fenni, Pontypridd). Felly, mae angen adnewyddiad neu ailddatblygiad sylweddol o'r adeilad ei hun, ac ymarfer ail-frandio a marchnata a allai gael ei seilio

¹ <http://castlequarterarcades.co.uk/>

ar thema neu arbenigrwydd penodol (er enghraifft cynhyrchion crefft, dillad yr oes a fu, finyl ac ati) er mwyn efelychu llwyddiant marchnadoedd mewn mannau eraill. Gallai'r farchnad hefyd gynnig digwyddiadau tymhorol ychwanegol gan gynnwys marchnadoedd hwyr yn y nos, marchnadoedd bwyd stryd, ffeiriau teganau ac ati er mwyn amrywio'r arlwy manwerthu ym mhen ucha'r dref.

6.9

Mae gwead presennol y farchnad yn wael ac mae ei hailddatblygiad yn hanfodol er mwyn sicrhau ei hirhoedledd yn y dref. Bydd angen i unrhyw ailddatblygiad fynd i'r afael â'r cyfyngiadau mynediad sy'n gysylltiedig â'r gwahaniaeth mewn lefelau rhwng y ddwy fynedfa, a allai hefyd gynnig cyfle i wneud y mwyaf o'r defnydd o'r lle sydd ar gael.

Egwyddorion Datblygu

- Yn y tymor byr, gwelliannau i ffasadau gwael yr adeilad, yn enwedig ar hyd stryd Pentrebane.

- Gallai ailddatblygiad yr adeilad ar ei ôl troed presennol gynnwys creu llawr mesanîn i fanteisio ar y gwahaniaeth mewn lefelau a gwneud y defnydd mwyaf o'r lle mewnol. Ceir potensial hefyd i gynyddu'r lefelau golau trwy ddeunyddiau to priodol i roi teimlad ysgafnach, brafach i'r lle.
- Rhoi ystyriaeth fanwl i botensial pedestreiddio rhan o Stryd Clive ac/ neu styrd Pentrebane i gynyddu nifer yr ymwelwyr i'r farchnad, a allai ddarparu lle am stondinau a digwyddiadau gwib.
- Mae angen gwell arwyddion i'r Farchnad Dan Do o Heol Caerdydd fel ffordd o gynyddu nifer yr ymwelwyr.

B - Creu cyrchan fywiog a hygyrch i ymwelwyr

Bwyd, Diod ac Adloniant

6.10

Er mwyn i Gaerffili ddenu busnesau ifanc, creadigol neu wedi'i arwain gan dechnoleg i'r dref, mae'n bwysig ystyried sut gallai'r

economi liw nos helpu i gefnogi'r twf hwn. Er bod nifer o dafarndai yng nghanol y dref, ceir ystod gyfyngedig o dai bwyta, bariau gwin neu fwytai cyfeillgar i fusnesau/teuluoedd, sy'n hanfodol bwysig i wella rôl Caerffili fel cyrchan i fusnesau ac ymwelwyr. Mae'r fath gyfleusterau'n bwysig hefyd er mwyn i'r ardal ddenu gweithwyr ifanc proffesiynol cefnog i wario'u harian yng nghanol y dref.

6.11


Cydnabyddir bod potensial am wrthdaro rhwng trigolion canol y dref a'r ddarpariaeth canol tref estynedig ar gyfer sefydliadau bwyd a diod A3, sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, swm neu arogleuon. Bydd swyddogaethau Cynllunio, lechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu'r Cyngor yn sicrhau bod y diogelwch priodol yn cael ei roi i amwynder y trigolion wrth ystyried priodoldeb y cynigion ar gyfer eiddo/ safleoedd penodol.

B - 1 Heol y Cilgant/Park Lane

6.12

Mae cyfle i ddatblygu twf bwyta teuluol sy'n

Ffigur 5: Cyfleoedd economi liw nos



edrych dros y castell, sy'n gysylltiedig â Heol y Cilgant, Parc Dafydd Williams a Lôn y Parc. Gellir cyflawni hyn trwy ailddatblygu adeilad swyddfa Llys Ifor ar gyfer defnydd sy'n ychwanegu at dwristiaeth, ynghyd ag ailgyflunio maes parcio Heol y Cilgant, neu fel rhan annatod o ddatblygiad dan arweiniad twristiaeth ar Lôn y Parc.

B - 2 Heol Caerdydd a'r ardal o gwmpas yr orsaf

6.13

Ceir cyfleoedd i ehangu'r economi liw nos o gwmpas yr orsaf a phen ucha'r dref fel rhan o ddatblygiad canolfan metro ffyniannus. Dylid archwilio cyfleoedd i alluogi ar gyfer datblygiad bwyta al fresco a bariau gwin fel sydd wedi datblygu o gwmpas gorsafoedd mewn trefi a dinasoedd eraill e.e. Lôn y Felin yng Nghaerdydd. Byddai astudiaeth i'r potensial i wella'r economi liw nos yn bwysig wrth sicrhau bod yna arlwy priodol.

B - 3 Neuadd a Sefydliad y Gweithwyr Caerffili

6.14

Mae Neuadd a Sefydliad y Gweithwyr Caerffili rhestredig, sydd mewn lleoliad amlwg gyferbyn â'r castell, yn cael ei danddefnyddio. Mae cyfle sylweddol i ddiweddarau a gwella'r adeilad a'i gyfleusterau er mwyn creu lleoliad celfyddydol ac adloniant sy'n addas i'r byd modern wrth gadw hanes a threftadaeth y dref, gan ddilyn enghreifftiau megis Neuadd Goffa Trecelyn a Sinema Maxime yng Nghoed Duon. Mae gan yr adeilad brif Neuadd sy'n addas i dros 400 o bobl. Gellid uwchraddio hyn i wella'r ddarpariaeth adloniant. Ceir hefyd posibilrwydd o ystafelloedd ac ardaloedd eraill i'w diweddarau a'u defnyddio at ddibenion rhaglenni, prosiectau a digwyddiadau celfyddydol ac adloniant amrywiol.

B - 4 Neuadd y Gweithwyr Bedwas

6.15

Mae potensial hefyd i uwchraddio a gwella'r cyfleusterau yn Neuadd y Gweithwyr Bedwas i sicrhau bod yr adeilad rhestredig amlwg

hwn yn cael ei ddefnyddio'n well a'i fod yn gallu cyfrannu at yr arlwy adloniant dydd a nos yn y Basn.

B - 5 Gwell Cyfleusterau Parcio

6.16

Er y rhagwelir y bydd y gwelliannau i gludiant cyhoeddus fel rhan o'r Metro'n cynyddu nifer y bobl sy'n teithio i ganol y dref Caerffili trwy gludiant cyhoeddus, mae dal angen maes parcio i wasanaethu canol y dref. Mae argaeledd parcio safonol yn y lleoliadau iawn yn chwarae rôl allweddol yn amgyffrediad ac atynioldeb canol y dref ac, yn ei dro, mae'n hollbwysig i gynyddu nifer yr ymwelwyr, yn enwedig ym mhen ucha'r dref.


6.17

Bydd angen i Gynllun Parcio Canol y Dref fod yn barod i fynd i'r afael â'r elfennau allweddol canlynol:

- Y cynnydd tebygol yn nifer yr ymwelwyr i ganol y dref a nifer a lleoliad y lleoedd parcio ceir y bydd eu hangen i ddarparu ar ei gyfer;

Ffigur 6: Potensial Twristiaeth

0 0.0275 0.055 0.11 Miles



- Y potensial i leoli meysydd parcio i ddal ceir cyn iddynt fynd i mewn i Gynllun Gweithredu Ansawdd Aer Canol Tref Caerffili, er mwyn cynorthwyo i wella ansawdd yr aer yn y ganolfan;
- Sicrhau bod y maes parcio wedi'i ddylunio'n dda ac yn ddiogel. Mae'r Prif Gynllun yn hyrwyddo datblygiad meysydd parcio aml-lawr ym Morrisons ac o bosibl yn yr orsaf, er mwyn gwneud y mwyaf o'r defnydd o dir prin yng nghanol y dref. Mae'n bwysig bod y meysydd parcio hyn wedi'u dylunio'n dda a'u bod yn ddiogel trwy oruchwyliaeth dda a theledu cylch cyfyng;
- Dylid ystyried atebion parcio arloesol er mwyn mwyafu defnydd y tir.
- Mae ffioedd yn atal pobl rhag defnyddio meysydd parcio felly bydd angen ystyried yn ofalus yr angen i godi ffioedd, lefel y ffi a'r prosesau ar gyfer talu yn erbyn yr amcanion adfywio;

- Cydbwyso'r angen am barcio i drigolion yn unig gyda'r angen am barcio tymor byr i wasanaethu busnesau lleol;
- Gorfodaeth lem o ardaloedd parcio i drigolion yn unig er mwyn atal parcio anghyfreithlon. Mae'n debygol y bydd Gorfodi Parcio Sifil yn cael ei gyflwyno dros y 2 flynedd nesaf;
- Cyfleoedd am bwyntiau gwefru cerbydau trydanol yn yr ardaloedd parcio presennol neu arfaethedig.

C - Gwneud y mwyaf o bresenoldeb Castell Caerffili

6.18

Castell Caerffili, sydd wedi'i amgylchynu gan lynnoedd artiffisial helaeth, yw'r prif atyniad twristaidd a dyma'r pwynt gwerthu unigryw i Gaerffili. Fodd bynnag, er bod hwn yn atyniad gwych, mae angen i'r castell ddatblygu ei ddarpariaeth ymhellach er mwyn ehangu ei apêl. Mae CADW wrthi'n datblygu Uwchgynllun ar gyfer y castell a fydd yn amlinellu nifer o welliannau i droi'r castell o fod yn atyniad i ymwelwyr haen 2 i haen 1.

Bydd hyn yn cynnwys nodweddion megis drysfa ryngweithiol, ogof ddraig a saethu rheolaidd o beiriannau gwarchae.

6.19

Mae angen atyniadau twristiaeth, hamdden a masnachol ychwanegol hefyd er mwyn darparu arlwy cryfach yn y dref a'r ardal ehangach, er mwyn annog pobl i aros yn hwy. Er bod sawl gwesty rhesymol wrth ymyl y dref, nid oes gan Gaerffili westy safon uchel yng nghanol y dref a allai ychwanegu gwerth at y profiad twristaidd a chynyddu hyd tripiau. Byddai gwesty safon uchel mewn lleoliad da'n cefnogi'r potensial i'r castell hwyluso mwy o briodasau a digwyddiadau trwy gynnig llety safonol i ymwelwyr. Gallai hefyd ddarparu cyfleusterau cynadledda at ddefnydd busnesau a fydd yn cael ei annog i glystyru'n fwyfwy o gwmpas canolfan bwysig Metro Caerffili.

6.20

Mae yna nifer o fentrau allweddol ar hyd a lled y dref a amlinellir isod, felly, a allai: gynyddu'r manteision o'r castell o safbwynt twristiaeth; helpu i godi proffil Caerffili fel cyrchfan

twristaidd yn ei hun; cynyddu gwariant yn yr ardal, ac yn bwysig, creu cyfleoedd gwaith i'r trigolion lleol.

(C-1) Lôn y Parc (C-1)

6.21

Mae'r Cyngor yn berchen ar safle amlwg sy'n edrych dros Barc Dafydd William a'r castell, sydd wedi'i ddynodi yn yr CDLI ar gyfer datblygiad twristiaeth a masnachol. O gofio'i safle uchel uwchben y castell, cynigia'r safle gyfle go iawn i greu datblygiad ansawdd uchel sy'n edrych dros y castell a fydd yn cynyddu'r arlwy twristiaeth yn y dref, a fydd yn ei dro'n cynyddu gwariant gan ymwelwyr ac yn cynnig cyfleoedd gwaith yn y sector gwasanaeth.

Egwyddorion Datblygu

- Mae'r ymchwil yn dynodi y byddai'r safle'n addas i westy 'cyrchfan' bwtic/annibynnol, gan gynnwys bwyty safonol o bosibl (B-1).
- Mae Lôn y Parc yn borth allweddol i gerddwyr i'r dref o gyfeiriad y gorllewin. Fodd bynnag, mae'n lôn wasanaeth

hefyd i unedau manwerthu ar Stryd Sain Ffagan ac yn hynny o beth, mae natur weithredol yr ardal yn golygu bod yr ardal yn ddiolwg. Rhaid gwella ymddangosiad cefn yr eiddo presennol a pharth y cyhoedd ar hyd y lôn wasanaeth hon er mwyn i gynllun am westy newydd lwyddo yn y lleoliad hwn.

- Yn y tymor byr, dylai'r Cyngor weithio gyda busnesau i archwilio'r cyfleoedd i uwchraddio a gwella'r cefnlun a thriniaethau ar y ffiniau ar gyfer yr eiddo sydd â'u cefnau ar Lôn y Parc.

(C-2) Atyniad Twristaidd

6.22

Mae angen atyniad ychwanegol i ymwelwyr (fel amgueddfa) i ehangu ar yr arlwy twristaidd yn y dref. Bydd angen dynodi adeilad addas yn agos at ganol y dref i letya'r defnydd ohono.

6.23

Un posibilrwydd yw defnyddio rhan o Ganolfan Gymunedol Twyn, sy'n edrych dros y castell ac sydd â chysylltiadau agos â

Chaws Caerffili. Fe'i codwyd ym 1791 fel Capel Methodistiaidd Twyn a daeth yn ganolfan gymunedol ym 1974 a heddiw mae'n gartref i Gyngor Tref Caerffili hefyd. Y tu ôl i'r adeilad roedd neuadd (sydd bellach wedi'i dymchwel) a gynhaliai farchnad gaws lle roedd ffermwyr lleol yn gwerthu caws Caerffili traddodiadol i'r cyhoedd.

(C-3) Llwybr Twristiaeth

6.24

Dylai Llwybr twristiaeth sy'n cysylltu'r safleoedd a'r adeiladau o ddiddordeb allweddol ym Masn Caerffili fod yn rhan annatod o'r strategaeth dwristiaeth. Dylai hyn ddarparu cyswllt yn y dref ei hun rhwng Castell Caerffili, Rhodfa Tommy Cooper, y Ganolfan Groeso a'r amgueddfa, ond hefyd archwilio lleoedd yn yr ardal ehangach gan gynnwys Colomendy a Chastell y Fan, Castell Rhiw'r-perrai, Odynau Calch Wernddu, Parc Morgan Jones a'r Gofeb a Gardd Mwyngloddio Genedlaethol yn Senghennydd. Gallai'r llwybr hefyd gysylltu â mannau eraill yn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys Maenordy Llancaiach Fawr a'r Parciau Gwledig sy'n ffurfio rhan o Barc Tirweddau'r Cymoedd.

Twristiaeth Gweithgareddau (C-4)

6.25

Mae twristiaeth gweithgareddau'n gymhellwr allweddol i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac mae Basn Caerffili mewn safle da i elwa ar hyn trwy ddarparu llety a chyfleusterau i gefnogi cerdded, beicio, marchogaeth a dringo mynyddoedd. Mae Llwybr 4 (Abergwaun i Lundain) y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn teithio trwy Gaerffili, Bedwas, Machen a Draethen. Yn ogystal, mae'r Basn mewn lle da i wasanaethu'r canolfannau beicio mynydd yn Llwybr Coedwig Cwmcarn a Parc Beicio Cymru ym Merthyr Tudful, yn ogystal â chyfleusterau eraill sy'n cynnwys Mountain View Ranch a Chanolfan Marchogaeth Rockwood, y ddau ar Fynydd Caerffili. Dylid annog a chefnogi darpariaeth ystod ehangach o lety fel cabanau, gwersylla / glampio ac ati mewn lleoliadau priodol ym Masn Caerffili.

(C-5) Parc Morgan Jones

6.26

Mae Parc Morgan Jones yn barc cyhoeddus

mawr, sydd â statws y Faner Las i gyfeiriad gogledd-orllewinol y castell. Mae'r Parc i gyfeiriad y gorllewin o ganol y dref yn cynnig ardal helaeth o gyfleusterau chwaraeon ffurfiol, maes chwarae, ardal sblasio a chaffi cymunedol o fewn pellter cerdded hawdd i'r castell a Chae Owain Glyndwr. Er gwaetha'u hagosrwydd, ceir cysylltiad gwael rhwng yr ardaloedd hyn ac nid yw'r ymwelwyr i'r dref yn gwybod o reidrwydd fod y Parc deniadol hwn mor agos. Mae angen, felly, cryfhau eu perthynas trwy well arwyddion, gwell llwybrau troed a chysylltiadau llwybrau beicio, a thrwy eu marchnata a'u hyrwyddo trwy'r llwybr twristiaeth.

(C-6) Gwelliannau i'r Cyfleusterau Bysus

6.27

Ar hyn o bryd, maes parcio Heol y Cilgant yw'r prif fan gollwng ar gyfer teithiau bysus i Gastell Caerffili. Er bod y llwybr rhwng y maes parcio a'r castell yn ddeniadol, mae'r arwyddion yn wael ac nid yw'n annog ymwelwyr nad ydynt yn gyfarwydd â'r ardal i ymweld â chanol y dref. Bydd darparu culfan i fysis gyferbyn â'r fynedfa i'r Castell yn gwella'r berthynas rhwng y castell a'r ganolfan

manwerthu ac o bosibl yn cynyddu'r amser aros.

6.28

Dylid archwilio'n llawn hefyd y cyfleoedd i gynnwys arhosfan fysis pwrpasol i ymwelwyr yn y Canolfan Metro Caerffili gwell.

6.29

Er bod nifer fach o fusnesau lleol yn cynnig lluniaeth am ddim, mae'r cyfleusterau sydd ar gael i yrwyr bysus arhosiad hir yn y dref yn gyfyngedig, sy'n rhwystr wrth wneud y mwyaf o'r arlwy twristiaeth. Mae lle parcio cyfyngedig ar gyfer cerbydau mawrion ar gael ym maes parcio Heol y Cilgant, ond nid oes toiledau na chyfleoedd am luniaeth yno. Mae yna alw am gaban bach sy'n gwasanaethu anghenion y rheiny sy'n defnyddio'r maes parcio.

(C-7) Digwyddiadau

6.30

Fel y castell, mae Caws Mawr Caerffili wedi bod yn gyfystyr â Chaerffili ers amser hir. Ceir nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus yn y dref bob blwyddyn, gan gynnwys y Caws Mawr, Gwyl Fwyd Caerffili, marchnad



ffermwyr misol Caerffili a ras 10 cilomedr Caerffili, sydd wedi creu nifer sylweddol o ymwelwyr a gwariant yn y dref. Mae gan y dref nifer o leoedd digwyddiadau ym maes chwarae Owain Glyndŵr ac o gwmpas y Twyn, ond dylid hyrwyddo'r cyfleoedd i ehangu'r rhaglen ddigwyddiadau a nifer y lleoedd am ddigwyddiadau yn y dref a'r ardal ehangach, yn enwedig fel ffordd o gynyddu nifer yr ymwelwyr yn ardal Heol Caerdydd.

6.31

Bydd gwelliannau mewn hygyrchedd i Fasn Caerffili a chanol y dref yn golygu manteision sylweddol wrth ddarparu ar gyfer y niferoedd cynyddol o bobl sy'n mynychu digwyddiadau yn y dref. Mae'r ddarpariaeth parcio a theithio cynyddol yn Llanbradach a darpariaeth bellach mewn arosfannau ar yr adferiad arfaethedig ar linell Machen yn darparu cwmipas sylweddol i ehangu lefel y cyfleusterau parcio a theithio i ddigwyddiadau, tra bydd cyswllt cludiant cynt a mwy effeithlon i Gasnewydd (y cyswllt uniongyrchol cyntaf â Chasnewydd

o Fasn Caerffili) yn y tymor hwy, yn cynyddu poblogaeth y dalgyrch ar gyfer y digwyddiadau hynny.

CH - Gwella'r pyrrh allweddol

Porth Y Gorllewin

6.32

Y prif lwybr a ddefnyddir gan lawer o ymwelwyr o'r tu allan i'r fwrdeistref sirol oherwydd y cysylltiadau â'r A470 yw'r ffordd orllewinol i'r dref trwy Heol Nantgarw. Mae maes parcio Heol y Cilgant yn darparu lle parcio i'r rhai sy'n mynd i ganol y dref o gyfeiriad y gorllewin, gyda Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn pasio trwy'r maes parcio hefyd, a gorsaf Aber i gyfeiriad y gogledd orllewin. Mae'r ardal rhwng y maes parcio a chanol y dref yn borth allweddol i'r dref i gerddwyr a beicwyr ill dau. Mae gan y porth i'r dref botensial sylweddol i gael ei wella er mwyn cynyddu'r arlwy twristaidd a gwella'r amgylchedd. Byddai'r cynigion canlynol yn cefnogi hyn:


- Ar hyn o bryd, mae adeilad deulawr

swyddfeydd Llys Ifor wrth y fynedfa i faes parcio Heol y Cilgant yn wag. Er y gallai'r adeilad gael ei ailbreswyllo at ddibenion cyflogaeth, mae gan y safle olygfa ddeniadol o'r castell a byddai ailddatblygu'r safle i'w ddefnyddio fel tafarn/tŷ bwyta teuluol neu lety gwely a brecwast yn cynyddu gwariant yn yr ardal, yn gwella'r economi dydd a liw nos ac yn creu cyfleoedd gwaith (B-1).

- Gwelliannau i'r cysylltiadau i gerddwyr trwy Barc Dafydd Williams, gan gynnwys gwelliannau i bomprennau, tirlunio meddal, seddau a chyfleusterau eraill (D-1).
- Ailddatblygiad y safle a berchnogir gan y Cyngor yn Lôn y Parc am westy o safon wedi'i deilwra sy'n cynnwys ty bwyta (B-1, C-1).
- Gwell arwyddion ac isadeiledd (tirlunio meddal, planwyr, triniaethau i'r ffiniau) ym maes parcio Heol y Cilgant (D-2).
- Gwell arwyddion a llwybrau troed rhwng gorsaf Aber a chanol y dref (D-3)

Ffigur 7: Porth y Gorllewin

0 0.035 0.07 0.14 Miles





Porth Y Gogledd

6.33

Rheolir y porth i'r dref o'r gogledd gan draffig er anfantais y cerddwyr. Mae'r ardal yn dioddef o dagfeydd sylweddol oherwydd crynodiad sawl gyffordd fawr mewn ardal fach, ac nid yw'n darparu nodwedd y porth na chanolbwyntiau a ddylai fframio'r fynedfa i'r castell a chanol y dref. Ceri sawl safle sy'n cael eu tanddefnyddio neu sy'n wag a allai gynnig cyfleoedd allweddol i ailddatblygu a gwella'r amgylchedd a dylid paratoi briff datblygu sy'n ystyried sut y gellir datblygu'r ardal mewn ffordd gynhwysfawr. Dylai'r briff datblygu gael ei lywio gan adolygiad o draffig. Safleoedd datblygu allweddol yr ardal hon yw: -


- Ailddatblygu Triongl Heol Ton Y Felin Road a Stryd y Castell fel cynllun manwerthu/defnydd cymysg dan arweiniad A3 (A-3).
- Mae gan safle hen Eglwys Beulah ar Heol Bontygwindy ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys manwerthu ar y llawr gwaelod a

swyddfeydd uwchben. Byddai'r defnydd hwn, neu ddatblygiad preswyl sy'n cynnwys fflatiau safonol wedi'u dylunio'n dda, yn creu adeilad canolog deniadol ar y safle anghyfannedd hwn ac yn gwella harddwch yr ardal yn sylweddol. Hwyrach fod cyfle i gynnwys tir ychwanegol heb ei ddefnyddio'n ddigonol sy'n uno â'r safle i ehangu'r ardal i'w datblygu (D-4)

- Gallai ailddatblygu Tafarn amlwg y Piccadilly a'r iard llogi offer/adeiladwyr cydffiniol i'w defnyddio fel swyddfeydd neu ddatblygiad defnydd cymysg gael ei archwilio gyda'r perchnogion. Dylid ystyried cyfleoedd i agor y gyffordd i alluogi golygfeydd o'r castell fel rhan o unrhyw gynllun ailddatblygu (D-5)
- Potensial i ymgymryd â gwelliannau amgylcheddol o gwmpas lleoliad y castell a maes parcio Sgwâr Piccadilly i gynyddu atynioldeb yr ardal, buddsoddiad ysgogol o bosibl (D-6).

Ffigur 8: Porth y Gogledd

0 0.0125 0.025 0.05 Miles



Caerphilly County Borough Council, 100025372, 2018.

- Dylai'r cynlluniau gael eu cefnogi gan ddull strategol o reoli traffig ar draws Basn Caerffili i leihau'r rheolaeth drafftig a gwella ansawdd yr aer.

Porth Y De

6.34


Mae'r fynedfa i'r dref o gyfeiriad y de trwy'r A469 Mountain Road yn ffordd brifwythiennol rhwng Caerffili a Chaerdydd ac yn borth mawr arall i ganol y dref. Mae sawl adeilad nodedig ar y fynedfa i'r dref, ond rheolir y ddynesa gan gerbydau yn sgil sawl ffordd yn cydgyfarfod (Stryd Clive, Heol Caerdydd, Stryd Bartlett a Theras yr Orsaf) ar ddechrau'r system un ffordd trwy ganol y dref. Mae'r cynigion a osodwyd yn Adran E mewn perthynas â'r ganolfan Metro o gwmpas y gyfnewidfa fysus a threnau yn rhan hollbwysig o drawsnewid Porth y De, ond mae hefyd nifer o gyfleoedd allweddol i wella'r rhwydwaith ffyrdd trwy'r porth hwn. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys:

- Gwelliannau i ffasâd hen adeilad yr orsaf ar y bont dros y rheilffordd, sy'n cael ei reoli gan arwyddion ac sy'n tynnu oddi ar gymeriad yr adeilad (D-8).
- Cyflwyno tirlunio meddal yn yr ardal rhwng Heol Caerdydd a Theras yr Orsaf, a reolir gan balmentydd a rheiliau (D-9).
- Gwella'r cydlynid o Unedau 89 i 97 Heol Caerdydd, lle mae unedau'r siopau'n gymysgedd o uchderau a steiliau, trwy ailddatblygu neu adnewyddu. Dylai'r unedau hyn fod yn ganolbwynt deniadol a dylid archwilio'r dull cludiant allweddol hwn (D-10).
- Ystyried mesurau i wella profiad y cerddwyr a lleihau'r rheolaeth gan geir (D-11).
- Ailddatblygu'r hen lys ynadon a safle gorsaf yr heddlu at ddefnydd preswyl. Mae'r ddau safle'n cael eu hyrwyddo ar

gyfer tai pobl hwn, a fyddai'n cynorthwyo wrth amrywio'r stoc tai yn yr ardal hon, gan ryddhau cartrefi teuluol sy'n cael eu tanbreswyllo yn y dref o bosibl (D -12).

- Bydd y cynigion a osodwyd dan Adran E hefyd yn ail-ddychmygu ardal yr orsaf yn sylfaenol, a fydd yn ymddwyn fel Canolfan Buddsoddiad Metro allweddol.
- Os cyflwynir Ffordd Osgoi De Ddwyrain Caerffili, dylid ystyried y potensial i gau Mountain Road i drafftig trwodd i Gaerdydd yn y tymor hir.

Ffigur 9: Porth y De





Porth Y Dwyrain

6.35

Heol Bedwas yw'r brif ffordd fynediad i ganol y dref o ddwyrain Basn Caerffili, sydd hefyd yn darparu'r cyswllt rhwng Parc Manwerthu Gallagher a'r dref. Ceir cyfleoedd sylweddol i wneud gwelliannau i'r porth hwn trwy:

- Wella ardal fawr o le amwynder gwyrdd rhwng y tai ar Heol Bedwas ac ymyl ogleddol ystâd Parc Lansbury, sy'n ymddwyn fel rhwystr seicolegol anfwriadol. Croesir yr ardal agored hon gan y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a Nant Porset, ond fel arall, nid yw'n cael ei defnyddio'n ddigonol ac mae'n cynnig cyfle go iawn i wella'r harddwch a chreu lle adloniant a fydd yn cael ei ddefnyddio gan drigolion ac ymwelwyr. Yn ogystal, mae gan y coridor gwyrdd hwn rôl wrth wella ansawdd aer yn y dref, gyda'r potensial i wella bioamrywiaeth gyda'r Nant yn bwynt canolog i'r cynigion.

- Saif y rhan fwyaf o'r safle o fewn Parth C2 o'r gorlifdir. Fodd bynnag, o'i ddylunio'n briodol, hwyrach y bydd cyfleoedd am gyflogaeth graddfa fach gyfyngedig fel rhan o'r ailgyfluniad a gwelliant i'r ardal.
- Gwella'r mynediad i gerddwyr o Barc Lansbury i ganol y dref – ceir hyn trwy ffordd fynediad Morrisons a reolir gan geir ar hyn o bryd yng nghefn y siop a thrwy'r maes parcio.


E - Creu'r amodau er mwyn i'r ardal fod yn Ganolfan Metro lewyrchus

6.36

Ceir cyfle gwych i drawsnewid y coridor allweddol rhwng cyfnewidfa fysus a rheilffyrdd Caerffili a Pharc Busnes Caerffili i greu canolfan fenter lewyrchus, sy'n cynnig cyfle ar gyfer buddsoddiad busnes newydd, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad masnachol ac manwerthu yng nghanol y dref. Bodola'r potensial i greu ardal eithriadol sy'n

Ffigur 10: Porth y Dwyrain

0 0.0425 0.085 0.17 Miles



croesawu ymwelwyr, pobl fusnes a thrigolion fel ei gilydd, gan ddarparu profiad ansawdd uchel sy'n cyfleu cymeriad Caerffili. Bydd prif gynllun manwl yn cael ei baratoi i fynd i'r afael â'r prosiect hwn yn fanylach..

E - 1 Gyfnewidfa Cludiant a Chanolfan Fuddsoddi Caerffili

6.37



Mae'r gyfnewidfa bresennol, sy'n cynnwys y gorsafoedd bysus a threnau, yn annymunol, gyda lle heb ei ddefnyddio'n ddigonol, cynllun adeilad gwael a phroblemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n hanfodol fod y berthynas rhwng y dref a'r castell yn cael ei chryfhau i wella profiad y twristiaid a chynyddu amrywiaeth y defnyddiau o gwmpas yr orsaf. Mae cyfle arwyddocaol i drawsnewid y gwead trefol, sydd wedi'i unioni i'r rhaglen creu lleoedd Metro, er mwyn creu ardal ansawdd uchel sy'n darparu profiadau cadarnhaol ac yn gwella delwedd Caerffili fel lle i ymweld ag ef, gweithio ynddo a byw ynddo. Yn ogystal, mae potensial hefyd i gysylltu hen Linell Machen

sydd wedi'i adfer i'r gyfnewidfa er mwyn cynyddu hygyrchedd canol y dref i'r gefnwlod ehangach.

Egwyddorion Datblygu

- Yn ganolog i'r cynnig mae ailddatblygiad yr orsaf bresennol i greu gorsaf wedi'i chynllunio'n dda, addas i'r diben, modern, amlfoddol ac ynni effeithlon, fel adeilad tirnod sy'n gwasanaethu rhanbarth ehangach Metro'r Cymoedd.
- Ychwanegir at hyn gan welliannau beiddgar a radical i'r parth cyhoeddus amgylcheddol sydd wedi'u hunioni â rhaglen creu lleoedd Metro. Mae hyn yn cynnwys ailddatblygiad dethol o ardaloedd ac adeiladau allweddol o gwmpas Teras yr Orsaf i greu ardal fasnachol a phreswyl fywiog a fyddai'n amrywio'r arlwy dydd a nos (B-2).
- Rhagwelir y byddai ailddatblygiadau'n cynnwys datblygiad modern, defnydd cymysg wedi'i ddylunio'n dda, gyda defnyddiau llawr gwaelod A3 ac 1 a swyddfeydd ac/neu fflatiau uwchben.
- Bydd y safle taccis ar Deras yr Orsaf yn cael ei ymgorffori yn ailddatblygiad y gyfnewidfa i ddarparu cyfleuster sy'n fwy cysylltiedig, mwy effeithlon.
- Er mwyn gwella eglurder rhwng y Gyfnewidfa a'r castell, dylid ystyried cyfleoedd i gyflwyno a manteisio ar y golygfeydd i'r castell ynghyd ag arwyddion sythweledol newydd.
- Ailddatblygu'r maes parcio a theithio presennol i wneud y mwyaf o nifer y lleoedd sydd ar gael a darparu ar gyfer parcio beiciau, a gefnogir gan welliannau amgylcheddol gan gynnwys cyflwyno tirlunio meddal.
- Archwilio'r potensial i greu maes parcio aml-lawr wedi'i ddylunio'n dda fel rhan annatod o'r Gyfnewidfa i gynyddu'n sylweddol nifer y lleoedd parcio ceir yn y lleoliad canol tref hwn.
- Mae pob cynnig yn sicrhau y gellir cyflawni cysylltiadau uniongyrchol rhwng y gyfnewidfa a ailddatblygwyd a'r orsaf

Ffigur 11: Canolfan Metro



arfaethedig ym mhen adferiad Llinell Machen.

- Dylid ystyried llwybrau bysus presennol i ymchwilio i gyfleoedd i ddargyfeirio rhai llwybrau bysus i leihau nifer y bysus sy'n teithio yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer.

E - 2 Ehangu Parc Busnes Caerffili

6.38

Cynigia Parc Busnes Caerffili 200,000 troedfedd sgwâr o le swyddfa ar hyn o bryd. Defnyddir nifer sylweddol o unedau ar draws y Parc Busnes gan gwmnïau sy'n gweithio dan ymbarel Welsh ICE², sef cymuned o dros 140 o fusnesau newydd a microfusnesau'n cydweithio, sy'n gweithredu'n bennaf yn y diwydiannau gwasanaeth technoleg ddigidol a phroffesiynol. Mae cynlluniau i ehangu'r model busnes hwn trwy gaffael ac adnewyddu neu ailddatblygu unedau gwag, sy'n cael eu tanddefnyddio ar y safle i greu canolfan ragoriaeth ranbarthol. Gyda'i gilydd, byddai'r rhain yn cefnogi mwy o fusnesau newydd ac, at hynny, yn manteisio

ar y potensial sydd gan fusnesau bach a chanolig eu maint i ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant, a datblygu sgiliau lefel uwch. Mae cyfle hefyd i ddarparu datblygiad swyddfa fodern newydd ar ran orllewinol y Parc Busnes. Mae potensial hefyd i ymgorffori ailddatblygiad hen safle Ness Tar fel rhan o ddatblygiad canolfan byw-gweithio gynaliadwy. Byddai ehangu'r defnyddiau busnes ar draws y safle'n cael eu cefnogi ymhellach trwy ddarparu Arhosfan Metro newydd i wasanaethu'r Parc Busnes ac adfer hen Llinell Machen a fyddai'n rhoi mynediad uniongyrchol i'r safle o gyfeiriad y dwyrain trwy Gasnewydd.

Egwyddorion Datblygu

- Dylai'r tir 2.2 Ha heb ei ddatblygu ar ran orllewinol y Parc Busnes gael ei ryddhau i hwyluso datblygiad swyddfeydd pellach.
- Wrth iddynt fynd yn wag, ailddatblygu / adnewyddu unedau ar y Parc Busnes nad ydynt yn addas i'r diben mwyach er mwyn bodloni anghenion preswylwyr modern.

- Byddai mwy o gyflogaeth ar y safle'n cefnogi'r achos busnes i gyflwyno gorsaf metro sy'n gwasanaethu'r Parc Busnes a safle Ness Tar. Byddai hyn o fantais hefyd i'r cymunedau ar ben dwyreiniol Caerffili.
- Archwilio'r potensial i integreiddio ailddatblygiad hen safle Ness Tar (E-3) fel rhan o ganolfan byw-gweithio gynaliadwy.

E - 3 Ness Tar ac Iard Sborion Pesci

6.39

Mae hen Ffatri Ness Tar yn hen safle diwydiannol difwynedig dros ben sy'n cynrychioli cyfle mawr i ailddatblygu mewn lleoliad pwysig sy'n uno â chyfnewidfa Caerffili. Gallai'r safle gael ei ymestyn hefyd i ymgorffori iard sborion presennol Pesci sydd i gyfeiriad y dwyrain. Ar hyn o bryd, mae'r ddau safle'n creu argraff negyddol, torcalonnus o Gaerffili i deithwyr y rheilffordd wrth iddynt agosáu at gyfnewidfa Caerffili. Byddai ailddatblygu'r safleoedd hyn ar gyfer cymysgedd o

² <https://welshice.org/>

ddefnyddiau o safon, wedi'u dylunio'n dda yn gwella'r porth pwysig hwn i Gaerffili yn sylweddol. Mae angen cyllid adfer cyn ailddatblygu ar hen safle Ffatri Ness Tar a Pesci.

Egwyddorion Datblygu

- Mae'r safle'n rhoi'r cyfle i ddatblygu anheddiad cynaliadwy, yn agos i Gyfnewidfa Caerffili a Pharc Busnes Caerffili, a dylid ei ailddatblygu ar gyfer cynllun defnydd cymysg sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o anheddau a daliadaethau, ynghyd â swyddfeydd/unedau dechrau a defnyddiau hamdden/iechyd.
- Fel rhan o unrhyw gynnig ailddatblygu, dylid mynd ar drywydd cyfleoedd i ymgorffori unedau byw/gweithio ac/neu unedau cychwyn ar ran o'r safle; ceir potensial hefyd i gyflwyno datblygiad defnydd cymysg arloesol, cynaliadwy, heb geir.
- Yn rhan Pesci o'r safle, ceir corn simnai diwydiannol rhestredig prin ac wedi'i

ddiogelu'n dda sy'n dirnod amlwg yn yr ardal ehangach. Bydd angen ymchwilio l adfer ac integreiddio'r adeiledd rhestredig da hwn yn sensitif fel rhan o unrhyw adferiad o'r safle. Gallai adfer y strwythur gynnig cyfle unigryw i gynnig rhywfaint o hyfforddiant sgiliau cadwraeth.

- Yn ogystal, cynigia'r safle'r potensial i symud canolfan hamdden y dref i leoliad sy'n haws ei gyrraedd ar gludiant cyhoeddus, a fyddai'n gwasanaethu nid yn unig cymunedau difreintiedig Basn Caerffili ond sydd hefyd o fewn cyrraedd hawdd i ardal ddifreintiedig Blaenau'r Cymoedd. Mae potensial i hyn fod yn ganolfan arloesol, o'r radd flaenaf, ynni effeithlon a allai: fod yn atyniad ei hun yn y rhanbarth; a chael ei ddefnyddio i gynnal cynadleddau i fusnesau yn yr ardal.
- Fel rhan o'r broses adfer, bydd deunyddiau difwynedig yn cael eu cynnwys mewn cell ar y safle a fydd yn cyfyngu ar yr ôl-ddefnydd potensial ar gyfer yr ardal

honno o dir. Dylai unrhyw ailddatblygiad sicrhau bod yr ardal hon wedi'i dynodi'n weithredol i'r datblygiad arfaethedig, gan ddarparu defnydd priodol er budd y preswylwyr a defnyddwyr y datblygiad.

- Mae'n hanfodol y dylai cysylltiadau teithio gweithgar uniongyrchol rhwng y safle a chanolfan y metro, canol y dref a'r orsaf arfaethedig ar hen Linell Machen gael ei gynnwys fel rhan o unrhyw ailddatblygiad.
- Dylid diogelu coridor priodol o dir yn y safle i ganiatáu ar gyfer cyflwyno Ffordd Osgoi i Dde Ddwyrain Caerffili. Dylid dylunio'r coridor hwn yn weithredol i'r datblygiad a gallai gael ei ddefnyddio yn y tymor byr fel lle agored (ar yr amod y bydd yn hwyluso datblygiad y ffordd newydd yn y tymor hwy).
- Bydd angen ystyriaeth fanwl mewn perthynas â mynediad i gerbydau i'r safle cyn unrhyw ffordd osgoi.



F - Gwella cysylltiad o fewn Basn Caerffili ac i ardaloedd eraill

6.40

Canlyniad disgwylidig cyflwyno gwelliannau sylweddol i ganol y dref yw cynnydd yn lefel yr ymwelwyr. At hynny, mae'r cynnydd mewn cyfleoedd gwaith yng nghanol y dref a safleoedd cyflogaeth y Basn a cheir cynnydd sylweddol yn y galw i deithio i Fasn Caerffili ac o'i fewn. Felly, ffactor allweddol wrth gyflwyno twf cynaliadwy ym Masn Caerffili yw gwella hygyrchedd i Fasn Caerffili ac o'i fewn trwy gludiant cyhoeddus a theithio gweithgar, ynghyd â gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd strategol. Bydd angen adolygiadau traffig rheolaidd i helpu i flaenoriaethu cynllunio ac ystyried effaith gronol cynigion ar y seilwaith presennol.

6.41

Mae Polisi TR6 yr CDLI mabwysiedig yn dynodi nifer o gynlluniau gwella i'r rhwydwaith strategol, a fydd yn ceisio lleddfu'r tagfeydd ar lwybrau allweddol ym Masn Caerffili. Nid yw'r cynlluniau canlynol

wedi'u rhoi ar waith eto a dylid archwilio cyfleoedd i sicrhau cyllid i gyflawni'r gwelliannau pwysig hwn i'r rhwydwaith.

- TR6.1 Llwybr Cerdded Tafwys
- TR6.3 Cylchfan Pwllpant (cynllun wrthi'n cael ei weithredu)
- TR6.4 Cylchfan Pont Bedwas
- TR6.5 System Gylchu Piccadilly
- TR6.6 Penrhos i Bwllpant
- TR6.7 Pwllpant i Fedwas

6.42

Bodola gyfle i gyflwyno gwelliannau cludiant cyhoeddus sy'n unol â'r Metro ac yn ychwanegu at y gwaith o'i gyflawni. Gall gwelliannau teithio gweithredol wella ac ehangu cwmmpas y Metro trwy ddarparu cysylltiadau lleol â'r rhwydwaith cludiant strategol, y gall pob un gynorthwyo wrth gyflawni amcanion y Metro.

6.43

Hwyluso hygyrchedd i Fasn Caerffili ac ynddo, yn ogystal, byddai cyfleusterau newydd sy'n lleihau lefel y traffig sy'n mynd i mewn i'r Basn yn golygu buddiannau sylweddol, yn

bennaf trwy leihau amserau teithio a gwella amgylchedd canol y dref.

F - 1 Parcio a Theithio Llanbradach

6.44

Mae cyfle mawr i ddarparu cyfleuster parcio a theithio mawr, sydd â'r potensial i gipio cyfran sylweddol o draffig gan gymudwyr, ac a fyddai'n lleihau lefel y traffig sy'n mynd i mewn i Fasn Caerffili o gyfeiriad y gogledd. Gall y tir yn hen Wingfield Tip ddarparu cyfleuster parcio a theithio a allai ddarparu tros 1,000 o leoedd parcio a theithio ynghyd â gorsaf mewn lle newydd, gyda'r potensial ar gyfer datblygiad busnes a masnachol ar dir cyfagos i ychwanegu at gyflawni'r ganolfan gludiant newydd hon.

Egwyddorion Datblygu

- Darparu 500 o leoedd gyda lle ehangu i gynyddu nifer y lleoedd i dros 1,000.
- Mae'r orsaf bresennol mewn lle amhriodol i gael ei wasanaethu gan y ddarpariaeth newydd a dylid ei hailddatblygu/symud i uno â'r ddarpariaeth newydd.

- Dylid dylunio'r ddarpariaeth parcio a theithio gyda thirlunio annatod, ansawdd uchel i feddalu'r strydlun a darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- Dylid dylunio'r orsaf newydd/wedi'i symud a'r ddarpariaeth parcio a theithio'n ofalus yn unol ag egwyddorion Rhaglen Creu Lleoedd y Metro.
- Dylai'r potensial ar gyfer mynediad newydd i'r safle, sy'n defnyddio Cyffordd bresennol Wingfield, gael ei ystyried i wella mynediad o ffordd osgoi Llanbradach.
- Dylid rhoi ystyriaeth i ddefnyddio tir cyfagos Wingfield Tip ac unrhyw gyfleoedd ailddatblygu gerllaw ar gyfer defnyddiau busnes/masnachol i ychwanegu at y ganolfan gludiant newydd.

F - 2 Llinell Rheilffordd Casnewydd Machen

6.45

Bodola gyfle mawr i ailagor hen linell rheilffordd Machen ar gyfer cludiant teithwyr.

Bydd hwn yn darparu cyswllt cludiant uniongyrchol, pwrpasol rhwng Caerffili a Chasnewydd, gan ddarparu gwell mynediad i'r dwyrain i Fasn Caerffili. Gallai'r llinell, o'i ailagor ar gyfer rheilffyrdd/tramiau ysgafn neu wasanaethau bws pwrpasol/dan arweiniad wasanaethu ardaloedd preswyl mawr fel Waterloo a Pharc Lansbury a byddai ei derfynell yng Nghaerffili'n rhan o gyfnewidfa gludiant ehangach Caerffili.

Egwyddorion Datblygu

- Y dewis mwyaf ffafrinol yw adfer hen linell Machen ar gyfer cludiant bysus ysgafn/ tramiau pwrpasol/dan arweiniad yn sgil yr effeithiau sydd wedi'u lleihau'n sylweddol ar gymunedau ar hyd y ffordd, ond mae hyn y tu allan i reolaeth y Cyngor.
- Dylid ystyried arosfannau newydd ar gyfer Parc Lansbury, Waterloo, Tretomas a Machen.
- Dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu lefel o ddarpariaeth parcio a theithio ystyrllon fel rhan o unrhyw arhosfan arfaethedig

- Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r ffordd y mae'r gwasanaethau'n integreiddio gyda'r gwasanaethau ar linell rheilffordd Glyn Ebwy, gan roi ystyriaeth arbennig i orsaf newydd i gyfeiriad y de o orsaf Pye Corner i ddarparu integreiddiad priodol gyda'r gwasanaethau tuag at Gaerdydd.
- Byddai terfynell Caerffili ar gyfer y llinell nesaf at Barc Busnes Caerffili, gan ddarparu mynediad uniongyrchol i gyfleoedd gwaith sylweddol a bydd yn ffurfio rhan o Gyfnewidfa Caerffili wedi'i hailddatblygu sy'n darparu mynediad uniongyrchol i ganol y dref a'r castell.
- Bydd angen dylunio pob gorsaf ac arhosfan yn unol â Rhaglen Creu Lleoedd Metro.
- Dylai Terfynell Caerffili fod yn rhan o ailddyluniad cyffredinol cyfnewidfa Caerffili, bod yn rhan weithredol o'r gyfnewidfa gan gynnal cysylltiadau uniongyrchol â Pharc Busnes Caerffili.

F - 3 Ffordd Osgoi De Ddwyrain Caerffili

6.46

Mae ffordd osgoi'r de-ddwyrain ar gyfer Caerffili, a fyddai'n cwblhau ffordd gylchol o gwmpas y dref, wedi bod yn uchelgais am gyfnod sylweddol o amser. I'r perwyl hwn, mae'r llinell arfaethedig ar gyfer ffordd osgoi wedi'i ddiogelu yn yr CDLI a fabwysiadwyd, yn seiliedig ar ei ofyniad fel rhan o'r mesurau i wella ansawdd aer yng nghanol tref Caerffili. Mae darpariaeth y ffordd osgoi wedi'i hanelu at aildosbarthu'r patrymau teithio ym Masn Caerffili, yn enwedig mewn perthynas â chanol y dref, lle bydd traffig trwodd yn cael ei gymryd o ganol y dref, ac felly'n lleihau'r lefelau traffig ac yn gwella ansawdd yr aer.

Egwyddorion Datblygu

- Dylai ffordd osgoi'r de-ddwyrain gysylltu â Ffordd Ddosbarthu Parc Lansbury yn y dwyrain i Mountain Road yn y gorllewin.
- Dylai cynllun y ffordd ddarparu mynediad i safle Ness Tar/Pesci

- Dylid ystyried aliniad y ffordd yn ofalus a dylid ceisio lleihau'r effeithiau gweledol a thirwedd.
- Dylid ystyried stopio'r cyswllt gogleddol o ganol y dref i Gaerdydd (trwy stopio Mountain Road), ar ôl i'r ffordd osgoi gael ei chyflawni.
- Bydd y ffordd osgoi'n cynnwys llwybr teithio gweithgar pwrpasol fel rhan o'i gynllun a fydd yn cysylltu â llwybrau teithio gweithgar presennol lle bo'n briodol.

F - 4 Cyfleusterau Parcio Beiciau

6.47

Ceisio'r strategaeth sicrhau bod canol y dref, canolfannau gwaith a chanolfannau cludiant o fewn cyrraedd trwy ffurfiau cludiant cynaliadwy. Er bod y Metro'n darparu ar gyfer teithio strategol, bydd swm sylweddol o deithiau'n gofyn am deithio ychwanegol i gyrraedd pen eu taith. Ceisio'r strategaeth wneud y symudiad hwnnw o ganolfannau Metro ac o fewn Basn Caerffili

trwy fesurau teithio gweithgar ac mae hyn yn fwyaf tebygol o gael ei wneud trwy deithio ar feiciau. O gofio hyn, mae angen cyflawni cyfleusterau parcio beiciau diogel, sicr a chyfleus ym mhob canolfan gludiant, yng nghanol y dref ac mewn canolfannau gwaith er mwyn hwyluso'r symudiad hwn. Dylid cydlynu hwn yn rhanbarthol er mwyn cydlynu'r cynnig.

Egwyddorion Datblygu

- Dylai datblygiadau newydd sicrhau eu bod yn darparu cyfleusterau parcio beiciau priodol a all fodloni'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Dylid gwneud darpariaeth ar hyd canol y dref, yn enwedig yn lleoliadau'r prif atynwyr.
- Dylid gwneud darpariaeth ym mhob canolfan gludiant, yn enwedig yng Nghyfnawidfa Caerffili lle bydd y ddarpariaeth yn gwasanaethu sawl defnydd.



- Dylai'r ddarpariaeth fod o fewn cyrraedd yn hawdd, yn hawdd dod o hyd iddi a bod mewn lleoliad cyfleus i'r cyrchfan er mwyn annog defnydd.
- Dylai hefyd fod yn ddiogel, yn sicr a bod yn amlwg i sicrhau gwyliadwraeth.
- Dylid cysylltu darpariaeth â llwybrau teithio gweithgar presennol lle bo'n bosibl.
- Ar gyfer parcio cyfnod byr (canol trefi ac ati), dylid darparu digon o le parcio i sicrhau bod lle ar gael yn gyson.
- Ar gyfer parcio cyfnod hir (canolfannau gwaith, cymudo ac ati), dylai fod gorchudd dros y ddarpariaeth er mwyn ei diogelu rhag yr elfennau.
- Dylid monitro, cynnal a rheoli'r ddarpariaeth yn gyson er mwyn sicrhau y cedwir ei hatynioldeb.
- Dylai cynllun a lleoliad y ddarpariaeth sicrhau cyfaddasrwydd gyda defnyddwyr a defnyddiau eraill.
- Dylid ystyried y ddarpariaeth lle mae'r parcio'n cysylltu â defnyddiau cysylltiedig eraill, e.e. ger safleoedd atgyweirio beiciau
- Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ddarparu cyfleusterau i storio ategolion ychwanegol yn ddiogel, megis helmedau a goleuadau.

F - 5 Cynllun Llogi Beiciau

6.48

Tra bydd y Metro'n mynd i'r afael â theithio pellter hwy, mae angen sicrhau y gall pobl barhau i deithio ym Masn Caerffili trwy ffurfiau cynaliadwy ar ôl gadael prif lwybrau'r Metro. Mater allweddol ar gyfer y teithio hwn yw bod gwaharddiad ar gario beiciau ar drenau ar adegau prysur a bod potensial cyfyngedig, os o gwbl am wasanaethau bysus i gario beiciau. Fodd bynnag, mae gan feicio rôl hynod bwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â materion fel tagfeydd a llygredd ac felly mae angen ystyried ffyrdd o fanteisio ar y dull cludiant hwn. Un ateb yw darparu cynllun llogi rhannu beiciau. Byddai hyn yn gofyn am system integredig o fannau llogi mewn

cyrchfannau allweddol, megis ardaloedd cyflogaeth mawr, canol y dref yn ogystal â'r canolfannau cludiant (fersiwn Caerffili o gynllun Boris Bikes yn Llundain³).

Egwyddorion Datblygu

- Dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu cynllun llogi rhannu beiciau ar hyd Basn Caerffili, gyda chyfleusterau'n cael eu darparu mewn cyrchfannau arwyddocaol, canolfannau cludiant a chanol y dref. Dylai gynnwys beiciau trydanol hefyd.
- Rhoi ystyriaeth i gysylltu'r cyfleusterau llogi beiciau â defnyddiau cysylltiedig â beiciau presennol e.e. llogi beiciau mewn cyfleusterau parcio beiciau, llogi beiciau sy'n gysylltiedig â defnyddiau cynnal/manwerthu beiciau presennol.
- Dylai'r cynllun sicrhau bod cyfleusterau priodol mewn cyrchfannau, gan gynnwys safleoedd cyflogaeth, er mwyn annog defnydd a lleihau costau.

Mesurau Teithio Gweithredol Eraill

6.49

Mae'r CDLI mabwysiedig yn dynodi nifer o welliannau i lwybrau rheiddiol ym Masn Caerffili a fydd yn gwella mynediad cymunedol ac yn darparu cysylltiadau cerdded a beicio i gludiant cyhoeddus, twristiaeth, lleoliadau, ardaloedd cyflogaeth ac atynwyr allweddol eraill.

6.50

Mae llawer o'r cynigion CDLI wedi'u cynnwys hefyd ym Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol Caerffili, sy'n cynnwys 40 cynllun a ddyluniwyd i gynyddu cysylltiad a hygyrchedd ar hyd Basn Caerffili. Ceisia'r mesurau hyn fynd i'r afael â materion teithio llesol yn y tymor byr. Fodd bynnag, bydd angen rhaglen barhaus o welliannau i fynd i'r afael â materion y dyfodol wrth iddynt godi o ailddatblygiad a thwf Basn Caerffili.

6.51

Cydnabyddir bod y defnydd cynyddol o feiciau trydanol yn cynnig dull teithio realistig arall dros bellteroedd hwy ar gyfer rhan

ehangach o'r boblogaeth. Bydd estyniad a chysylltiadau â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a'r llwybrau addas i feiciau trydanol yn cael eu hannog.

Cysylltiadau Newydd

6.52

Noda'r strategaeth hon nifer o gyfleoedd datblygu arwyddocaol a fydd yn gofyn am gysylltiadau i sicrhau bod modd darparu'n gynaliadwy i'r angen i deithio a grëwyd o dwf.


Egwyddorion Datblygu

- Dylai ardaloedd o dwf newydd arwyddocaol gynnwys cynigion teithio gweithgar a fyddai'n sicrhau bod y safleoedd yn gysylltiedig, mor uniongyrchol ac effeithlon â phosibl, â chanol y dref, Cyfnewidfa Caerffili a phob Canolfan Metro leol.
- Dylai mesurau teithio gweithgar ychwanegu at y llwybrau presennol a'u gwella.

³ <https://tfl.gov.uk/modes/cycling/santander-cycles>

Ffigur 12: Cysylltedd

0 0.275 0.55 1.1 Miles



G - Darparu'r amodau i gryfhau cyfleoedd gwaith

6.53

Bydd y cynigion ar gyfer y ganolfan strategol o amgylch cyfnewidfa Caerffili, Ness Tar, Parc Busnes Caerffili a'r orsaf arfaethedig ar hen Linell Machen yn cynnig cyfle i greu nifer sylweddol o swyddi newydd ac yn cefnogi datblygiad sgiliau. Fodd bynnag, mae nifer o ddarpar gyfleoedd eraill i ehangu'r ystod a'r dewis o swyddi sydd ar gael.

6.54

Yn ogystal â'r cyfleoedd a ddynodir isod, bydd datblygiad tai, manwerthu, swyddfeydd ac isadeiledd newydd arall ar draws Basn Caerffili'n creu swyddi yn y diwydiant adeiladu ac yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi leol. Bydd llawer o'r swyddi hyn yn yr economi sylfaenol, a fydd yn cefnogi'r amcanion a osodwyd yn y Strategaeth Adfywio.

G - 1 Ty Cenydd

6.55

Mae adeilad swyddfa Ty Cenydd mewn prif

safle yn uniongyrchol gyferbyn â'r castell. Mae wedi bod yn wag ers sawl blwyddyn, ond gallai gynnig 900 metr sgwâr o le swyddfa mewn lleoliad allweddol, gyda darpariaeth maes parcio yn yr islawr. Mae'r adeilad wedi'i isrannu fesul llawr er mwyn iddo allu cael ei osod ar sail lloriau unigol neu fel adeilad cyfan.

G - 2 Tir sy'n uno â Pharcio a Theithio Llanbradach

6.56

Bydd symud arfaethedig gorsaf Llanbradach a chreu cyfleuster parcio a theithio ar Wingfield Tip yn cynnig y potensial i greu rhai unedau swyddfa B1 ansawdd uchel ac/neu unedau busnesau newydd mewn lleoliad hynod hygyrch gyda mynediad da i'r rhwydwaith rheilffyrdd a'r rhwydwaith priffyrdd strategol. Mae potensial i ailddatblygu rhan ogleddol Wingfield Tip at ddefnyddiau cyflogaeth fel rhan o ganolfan o gwmpas yr orsaf newydd, ynghyd â'r gwaith ar Stryd Morgan a thir nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol o'i gwmpas, yn amodol ar gaffael tir.

G - 3 Parc Busnes Trecenydd

6.57


Mae Parc Busnes Trecenydd 10.2ha wedi'i ddyrannu/ddiogelu at ddefnydd cyflogaeth. Mae'n cynnwys nifer o ddefnyddiau Dosbarth B mewn stoc adeiladu sydd wedi'i anelu'n bennaf at ddiwydiant ysgafn. Ceir strïbed heb ei ddatblygu o dir yng nghanol y safle, a allai gael ei ddatblygu. Mae maes parcio a theithio Gorsaf Aber nesaf at y Parc Busnes, ond mae'r orsaf wedi gwahanu ei hun wrth y Parc Busnes wrth Ffordd Nantgarw.

Egwyddorion Datblygu

- Sefydlu cysylltiadau clir rhwng y Parc Busnes a Gorsaf Aber
- Ymchwilio i'r potensial am arhosfan rheilffordd ysgafn newydd nesaf at y Parc Busnes, os dilynir y rheilffordd ysgafn ar hyd y rhan hon o'r llinell dan fenter Metro.
- Archwilio'r cyfleoedd i ehangu'r safle parcio a theithio

Ffigur 13: Cyfleoedd Gwaith

0 0.275 0.55 1.1 Miles



- Ailddatblygu'r safle ar gyfer datblygiad Dosbarth B, er mwyn gwneud y safle'n addas i'r diben ac yn fwy deniadol i ddarpar breswylwyr.
- Terasau bach, hyblyg o unedau B1 sy'n cynnig llety o 500 troedfedd sgwâr fyddai fwyaf deniadol oherwydd byddent yn elwa ar gyfraddau busnes a chostau rhedeg isel a byddent yn gwasanaethu marchnad leol.



H - Cefnogi datblygiad tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac mewn lleoliadau cynaliadwy mewn aneddiadau

6.58

Mae'r strategaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn hyrwyddo datblygiad tai newydd ar safleoedd tir llwyd ym Masn Caerffili. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus gyda sawl safle difwynedig allweddol neu sy'n cael eu tanddefnyddio wedi'u datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er bod y rhain wedi gwneud cyfraniad pwysig at dai yn y Basn, erys angen dybryd am dai fforddiadwy.

6.59

Ceir nifer o safleoedd tir llwyd allweddol sy'n cynnig y cyfle am dai neu ddatblygiad defnydd cymysg sy'n ymgorffori elfen o dai. Mae gan lawer o'r safleoedd hyn gyfyngiadau yn rhinwedd defnyddiau a difwyniad blaenorol, sy'n golygu eu bod yn annhebygol o gael eu symud ymlaen gan y farchnad heb ymyrraeth y sector cyhoeddus.

6.60

Dyma'r cyfleoedd datblygu allweddol ar safleoedd tir llwyd mewn aneddiadau presennol ym Masn Caerffili a'u galluoedd mynegol:


- Glofa Windsor, Abertridwr (H-1)- 200-250 annedd;
- Waterloo Works, Waterloo (H-2) - 545 annedd, cyfleusterau cymunedol posibl
- Catnic, Caerffili (H-3) - 170 annedd;
- Glofa Bedwas, Bedwas (H-4) - 630 annedd, cyfleusterau cymunedol potensial a'r potensial am swyddfeydd B1;
- Ness Tar, Caerffili (H-5) - 200 annedd, swyddfeydd posibl, unedau byw/gweithio.

6.61

Yn ogystal â'r safleoedd mewn aneddiadau presennol ym Masn Caerffili, cafwyd pwysau datblygu ar gyfer tai ar nifer o safleoedd maes glas mawrion mewn aneddiadau ac wrth eu hymyl. Mae'r map isod yn dynodi'r

safle mewn perthynas â safleoedd ar yr adeg y paratowyd y Prif Gynllun, ond cydnabyddir y gallai cyfleoedd ychwanegol am ffawdelw a safleoedd maes glas gael eu hyrwyddo gan ddatblygiad diwydiant yn y dyfodol. Lle cyflwynir ceisiadau cynllunio, mae angen ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant, ar ôl ystyried polisiau cynllunio, yr angen am dai a chynaliadwyedd y lleoliad.

Ffigur 14: Safleoedd Tai Posib



Darparu lefel addas o gyfleusterau hamdden ac addysg gymunedol i gefnogi lefel bosibl y twf yn y boblogaeth a thai ym Masn Caerffili

6.62

Mae gan Fasn Caerffili ystod eang o gyfleusterau hamdden ffurfiol a ddefnyddir yn dda gan y trigolion lleol. Bydd y datblygiad newydd yn gosod pwysau ychwanegol ar gyfleusterau ac mae'n bwysig bod cyfleusterau hamdden cymunedol allweddol yn cael eu diogelu at ddefnydd y cyhoedd. Mae angen datblygu cynllun ar gyfer gwella neu ddisodli cyfleusterau i sicrhau bod yno'r ystod o wasanaethau y mae eu hangen gan gymdeithas fodern ac ar lefel sy'n gallu bodloni'r galw a grëwyd gan y twf cynlluniedig yn y boblogaeth.

I - 1 Canolfan Hamdden Caerffili

6.63

Mae Canolfan Hamdden Caerffili'n rhan annatod o'r ddarpariaeth hamdden ym Masn Caerffili, ond mae angen gwella'r cyfleuster

er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau modern. Mae potensial i adnewyddu neu ailddatblygu'r ganolfan hamdden ar ei safle presennol ym Mharc Virginia. Neu, gallai fod cwrpas i ymgorffori cyfleuster newydd wedi'i adeiladu i bwrpas mewn lleoliad arall, megis safle Ness Tar (E-3).

Darpariaeth Ysgol

6.64

Mae disgwyl i nifer y plant oed ysgol gynyddu ym Masn Caerffili o ganlyniad i ddatblygiadau newydd ac mae'n bwysig bod cyfleoedd i ysgolion ehangu er mwyn darparu ar gyfer disgyblion ychwanegol. Bydd y ddarpariaeth lleoedd ysgol ychwanegol ym Masn Caerffili'n cael ei hystyried fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

6.64

Mae disgwyl i nifer y plant oed ysgol gynyddu ym Masn Caerffili o ganlyniad i ddatblygiadau newydd ac mae'n bwysig bod cyfleoedd i ysgolion ehangu er mwyn darparu ar gyfer disgyblion ychwanegol. Yn ddiweddar,

mae'r Cyngor wedi cytuno mewn egwyddor i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol ym Masn Caerffili, yn amodol ar gadarnhau cyllid i brosiectau unigol, cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i achosion busnes a chanlyniad ymgynghoriadau unigol.

6.65

Mae'r cynigion allweddol sy'n berthnasol i Fasn Caerffili fel a ganlyn:

- Adeilad ysgol newydd i ddisodli Ysgol Gynradd Ty'n-y-wern bresennol ar safle Ysgol Uwchradd Bedwas (I-2)
- Adnewyddu safle presennol Ysgol Gynradd Tyn-y-wern i Ysgol Gynradd Gymraeg newydd (I-3)
- Adeilad ysgol newydd i ddisodli Ysgol Plasyfelin ar safle presennol yr ysgol (I-4)
- Estyniad Ysgol Gynradd Sant Iago (I-5)

6.66

Bydd pob prosiect yn destun proses ymgynghori lawn fel a bennwyd gan LIC dan gôd sefydliad Ysgol 2013. Yn ogystal,

mae rhaglen adnewyddu gwerth £33 miliwn wedi'i chynllunio ar gyfer ysgolion ar draws Bwrdeistref Caerffili. Nid yw'r ysgolion wedi'u nodi eto ond mae'n debygol o gynnwys ysgolion uwchradd Basn Caerffili.

Canolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned (I-6).

6.67

Yn dilyn cau ysbyty Glowyr Caerffili yn 2011, adferwyd yn rhannol yr adeilad a elwir yn 'The Beeches' ac ar hyn o bryd, mae'n cael ei ddefnyddio fel canolfan gymunedol sy'n cynnig lle i'r gymuned leol gymdeithasu, dysgu a datblygu sgiliau, cyrchu gwybodaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Bydd cam nesaf datblygu'r Canolfan yn cynnwys adnewyddu'r lloriau uchaf i gyflwyno cegin, ystafell ddigwyddiadau, ystafell crefft a cherdd ynghyd â chanolfan menterau cymdeithasol.

G - Sicrhau bod hygyrchedd i bawb yn cael ei ymgorffori ym mhob cynllun gwella

6.68

Mae hygyrchedd yn amcan croestoriadol, sy'n berthnasol i gynlluniau a ddynodwyd yn y cynllun hwn. Dylai pob cynnig i ddatblygu llynu wrth egwyddorion y dyluniad cynhwysol i sicrhau bod y cynlluniau'n bodloni anghenion hygyrchedd pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Basn Caerffili, gan gynnwys y rhai gyda namau ar eu symudedd, anawsterau dysgu a nam ar y synhwyrâu.

NG - Sicrhau y gall holl gymunedau Caerffili ymgysylltu a manteisio ar yr Uwchgynllun.

6.69

Dynododd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 mai ystâd tai Parc Lansbury (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 3 Sant Iago) yr awdurdod lleol oedd yr ardal fwyaf ddifreintiedig yng Nghymru. Cytunwyd y bydd ffocws blaenoriaeth ar roi ffordd newydd o weithio ar waith ym Mharc Lansbury, ac mewn nifer o'r cymunedau difreintiedig eraill yn y fwrdeistref sirol. Gellir

gweld map o Barc Lansbury a'i berthynas â chanol y dref yn Ffigur 2.

6.70

Mae angen newid sylfaenol i'r ffordd y cyflwynir ac y troir at wasanaethau cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion amlwynebog yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y fwrdeistref sirol. Dylai fod llawer mwy o bwyslais ar y llywodraeth leol yn galluogi'n cymunedau i gyflawni, yn hytrach na chyflawni ar eu cyfer.

6.71

Mae angen mwy o bwyslais ar ddynodi asedau cymunedol. Pan fo ymarferwyr yn dechrau gyda ffocws ar yr hyn sydd gan gymunedau, yn wahanol i'r hyn nad oes ganddynt, mae effeithlonrwydd y gymuned i fynd i'r afael â'i anghenion yn codi, fel ag y mae ei allu i symud cefnogaeth allanol i mewn. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau wedi'u dylunio i 'lenwi bylchau' a 'thrwsio

⁴ Adamson, D. and Lang, M (2017) Lansbury Park: A Deep Place Plan

problemau' gan greu dibyniaeth ac analluogi unigolion sy'n dod yn dderbynyddion goddefgar y gwasanaethau.

6.72

Bydd dull newydd Caerffili o ddarparu gwasanaethau'n rhoi safbwynt newidiol ar adeiladu pontydd gyda chymunedau, crynhoi asedau unigol a chymunedol, a galluogi proses o gydgyhyrchu, gydag aelodau cymunedol yn asiantau gweithgar yn eu bywydau eu hunain a'u teuluoedd. Mae cydgyhyrchu'n gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau gael eu hystyried yn arbenigwyr yn eu hamgylchiadau eu hunain a gallu gwneud penderfyniadau, wrth i ddarparwyr gwasanaethau symud o fod yn atgyweirwyr i hwyluswyr. Bydd hyn yn gofyn i gysylltiadau newydd gael eu datblygu gyda gweithwyr proffesiynol y rheng flaen a mabwysiadu rôl sy'n galluogi.

6.73

Bydd hyn yn gofyn am ddull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n ceisio cydlynu

gwasanaethau'n well i gyflawni'r effaith fwyaf. Y bwriad yw mabwysiadu ffocws seiliedig ar leoedd, gydag adolygiad o wasanaethau cyhoeddus i asesu pa mor dda maen nhw'n bodloni'r canlyniadau sy'n ofynnol gan y trigolion a sut gallent wella effaith a gwerth am arian. Mae rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chefnogaeth partneriaid yn allweddol i roi'r dull hwn ar waith, ac ar ôl cymeradwyo'r dull o droi at Barc Lansbury, mae'n rhoi cyfle i ddatblygu hyn ar draws nifer o ardaloedd allweddol ar draws y fwrdeistref.

6.74

Paratowyd Deep Place Plan⁴ ar gyfer Parc Lansbury, sy'n archwilio'r heriau cymhleth sy'n gysylltiedig â gwyrddroi'r cylch tlodi tymor hir ar yr ystâd. Mae'r Deep Place Plan yn cydnabod bod angen gwella amgylchedd ffisegol Parc Lansbury fel rhan annatod o unrhyw ymrwymiad i adnewyddu'r ystâd. At hynny, cydnabyddir mai ychydig y gwna amgylchedd ffisegol yr ystâd i gefnogi

iechyd a lles corfforol a meddyliol da, sy'n rhan bwysig o sicrhau y gall trigolion droi at gyfleoedd hyfforddiant a gwaith.

6.75

Gan weithio gyda'i bartneriaid Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, y busnes lleol a chymunedau trydydd sector a thrigolion Parc Lansbury, mae'r Cyngor yn gweithio i ddatblygu a rhoi theori newid seiliedig ar leoedd ar waith a amlinellwyd yn y Lansbury Park Deep Place Plan (2017). Cymeradwywyd a chefnogir Lansbury Park Deep Place Plan gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Caerffili, ac mae'n gyson gyda'i rwymedigaethau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Adran 7: Cyflenwi a Rhoi Newid ar Waith

Mae'r tabl isod yn gosod y prosiectau a ddynodwyd yn Adran 6 yr Adroddiad, ynghyd â'r canlyniadau disgwyliedig y bydd y prosiect yn eu cyflwyno a sut bydd y cynigion hyn

yn mynd i'r afael ag amcanion Strategaeth Adfywio'r Cyngor (Atodiad 1). Mae'r tabl yn ynodi costau mynegol pob cynllun ac yn amlygu unrhyw gyllid sydd wedi'i sicrhau hyd

yma. Dylid nodi bod nifer fawr o'r prosiectau hyn yn eu dyddiad cynnar ac, felly, gellir ond amcangyfrif yr allbynnau a'r costau.

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/ Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
A - Gwella'r arlwy manwerthu yn y dref	A - 1 ac A - 2 Maes Parcio Morrisons (Ehangu'r Manwerthu yn Castle Court)	Datblygu rhan o'r maes parcio presennol sy'n uno â chanolfan siopa Castle Court ar gyfer unedau manwerthu addas i sawl adwerthwr Datblygu maes parcio aml-lawr modern ar dir i gyfeiriad y gogledd o Morrisons	● Cryfhau'r arlwy manwerthu yng Nghanol y Dref; ● Ailddatblygu oddeutu 1.52 Ha o dir ● Cynyddu nifer yr ymwelwyr; ● Creu swyddi – creu oddeutu 150 o swyddi manwerthu/masnachol newydd ● Gallai contract adeiladu greu nifer o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu; ● Atal gollyngiad o wariant manwerthu	● SB1 ● SQL3 ● SQL7 ● SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: i'w penderfynu ond yn debygol o fod oddeutu £30 - 40m. Buddsoddiad sector preifat yn bennaf ond mwy na thebyg y bydd angen llenwi bwlch ariannu hyfywedd Mae deialog ar agor rhwng perchnogion sector preifat a'r Cyngor ynghylch y ddarpariaeth barcio gwell posibl ac ehangu'r ganolfan siopa.

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
A - Gwella'r arlwy manwerthu yn y dref	A-3 Triongl Ton y Felin Road a Stryd y Castell	Ailddatblygu unedau a maes parcio mewn cyffordd allweddol i greu adeilad tirnod ansawdd uchel fel rhan o'r porth i ganol y dref a'r castell Hefyd yn rhan o Amcan Strategol D	● Ailddatblygu rhyw 0.32 Ha o dir safonol ● Datblygu oddeutu 2,700 m2 o le manwerthu/swyddfa ● Creu oddeutu 80 o swyddi yn y sector manwerthu ● Creu oddeutu 120 o swyddi mewn diwydiannau swyddfa ● Gwella ymddangosiad y porth allweddol hwn ● Cryfhau'r arlwy manwerthu yng nghanol y dref ● Gwella lleoliad Neuadd a Sefydliad y Gweithwyr rhestredig a'r Castell ● Cyfleoedd gwaith yn y diwydiant adeiladu a manteision y gadwyn gyflenwi leol	● SB1 ● SB2 ● SB4 ● SQL3 ● SQL7 ● SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu– ond gallai fod oddeutu £4.7M+ Mae angen partneriaethau Sector Cyhoeddus/Sector Preifat oherwydd bod tirfeddianwyr amryfal yn yr ardal. Fodd bynnag, gallai ofyn am orchymyn prynu gorfodol ar dir neu adeiladau er mwyn gwneud y mwyaf o ardal/potensial y safle.
	A - 4 Heol Caerdydd (Rhwystrau rhwng Stryd Clive a Park Lane)	Gwelliant tymor byr i ymddangosiad gweledol yr adeiladau trwy driniaeth wedi'i theilwra i'r ffasâd Ailddatblygiad tymor hir o'r bloc cyfan ar gyfer datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys unedau manwerthu bach i ganolig eu maint, A3, swyddfeydd a phreswyl	● Gwella harddwch yr ardal yn y tymor byr ● Ailddatblygu rhyw 0.58 Ha o dir safonol ● Datblygu oddeutu 5,000m2 o le defnydd cymysg ● Creu rhyw 170 o swyddi yn y sectorau manwerthu/lletygarwch ● Creu rhyw 180 o swyddi yn y diwydiannau swyddfa ● Nifer gynyddol o ymwelwyr ar Heol Caerdydd ● Cryfhau cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref	● SB1 ● SB2 ● SB4 ● SQL3 ● SQL5 ● SQL7 ● SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu – ond gallai fod oddeutu £480,000 ar gyfer gweledigaeth tymor byr ac £8M+ ar gyfer y weledigaeth tymor hwy. Mae angen partneriaethau Sector Cyhoeddus/Sector Preifat oherwydd bod tirfeddianwyr amryfal yn yr ardal. Fodd bynnag gallai ofyn am orchymyn prynu gorfodol ar dir neu adeiladau er mwyn gwneud y mwyaf o ardal/potensial y safle.

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
A - Gwella'r arlwy manwerthu yn y dref	A - 5 1 - 20 Heol Caerdydd	Gwella ffasadau adeiladau amlwg sy'n edrych dros y castell. Ailddatblygu'r bloc yn y tymor hwy i greu datblygiad defnydd cymysg dan arweiniad manwerthu ansawdd uchel	• Ailddatblygu oddeutu 0.7 Ha o dir safonol • Datblygu oddeutu 4,600 m2 o le defnydd cymysg • Creu rhyw 115 o swyddi yn y sectorau manwerthu/lletygarwch • Creu rhyw 180 o swyddi yn y diwydiannau swyddfa • Gwella lleoliad Castell Caerffili • Cynyddu nifer yr ymwelwyr ar Heol Caerdydd • Cryfhau'r arlwy manwerthu yng nghanol y dref	• SB1 • SB2 • SB4 • SQL3 • SQL7 • SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu—ond gallai fod oddeutu £120,000 ar gyfer y weledigaeth tymor byr ac £8M+ ar gyfer y weledigaeth tymor hwy. Mae angen partneriaethau Sector Cyhoeddus/Sector Preifat oherwydd bod sawl tirfeddiannwr yn yr ardal. Fodd bynnag, gallai fod angen gorchymyn prynu gorfodol ar dir neu adeiladau i wneud y mwyaf o'r safle
	A - 6 Marchnad Dan Do Caerffili	Ailddatblygu i greu marchnad ffyniannus fel rhan annatod o'r arlwy manwerthu ym mhen ucha'r dref. Ystyried ymarferoldeb pedestreiddio rhan o Stryd Clive Street ac/neu Stryd Pentrebane	• Ailddatblygu oddeutu 0.080 Ha o adeilad/tir safonol • Ailddatblygu oddeutu 0.156 Ha o stryd lun masnachol safonol • Datblygu oddeutu 680 m2 o le marchnad/manwerthu • Diogelu'r swyddi presennol • Creu rhyw 40 o swyddi • Cyfleoedd i fusnesau newydd • Gwella safle Caerffili fel tref farchnad • Cynyddu nifer yr ymwelwyr ym mhen ucha'r dref • Creu arbenigedd a fydd yn cynyddu twristiaeth a gwariant yr ymwelwyr.	• SB1 • SB2 • SB4 • SQL3 • SQL7 • SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu—ond gallai fod oddeutu £50,000 - £150,000 ar gyfer gwelliannau mewnol ac allanol. Astudiaeth ddichonoldeb i bedestreiddio rhan o Clive Street ac/neu Pentrebane Street fel y bo angen. Gallai'r gost bosibl ar gyfer yr Astudiaeth fod oddeutu £10,000 - £20,000. Bydd amcangyfrifon y costau ar gyfer gwaith gwella'n cael eu penderfynu fel rhan o'r Astudiaeth

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
B – Creu cyrchfan bywiog a hygyrch i ymwelwyr	B - 1 Heol y Cilgant	Ailddatblygu safle Llys Ifor ar gyfer defnydd sy'n ychwanegu at dwristiaeth Park Lane - gweler C -1 (Isod) Gweler Amcan Strategol D hefyd	• Ailddatblygu oddeutu 0.131 Ha o adeilad/tir safonol • Ailddatblygu adeilad gwag yn y tymor hir mewn safle amlwg sy'n edrych dros y castell • Ailddatblygu oddeutu 600m2 o arwynebedd llawr • Potensial i greu rhyw 30 o swyddi yn y sector lletygarwch • Cynnydd yn amser aros a gwariant yr ymwelwyr • Cryfhau'r economi liw nos	• SB1 • SQL4 • SQL7 • SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu- (Dan arweiniad y Sector Preifat) Fodd bynnag, gallai fod angen cyllid i bontio bwlch hyfywedd. Ar hyn o bryd, mae adeilad Llys Ifor "ar osod" gyda rhent wedi'i osod ar £10.50 fesul troedfedd sgwâr y flwyddyn. Ond hwyrach fod opsiwn i brynu.
	B - 2 Heol Caerdydd a'r ardal o gwmpas yr orsaf	Gwella'r economi liw nos o gwmpas gorsaf Caerffili trwy greu ardal fwyta/bar gwin al fresco Ymgymryd ag astudiaeth i'r potensial i wella'r economi liw nos. Gweler hefyd Amcan Strategol E	• Creu swyddi lletygarwch • Cynnydd yn amser aros a gwariant yr ymwelwyr • Cryfhau'r economi liw nos (Gweler hefyd Amcan Strategol E)	• SB1 • SQL4 • SQL7 • SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu (Gweler hefyd Amcan Strategol E) Rhan o gynllun mwy o faint i greu canolfan Metro lewyrchus o gwmpas yr orsaf
	B - 3 Neuadd a Sefydliad y Gweithwyr Caerffili	Gwella'r cyfleuster er mwyn creu lleoliad diwylliannol a digwyddiadau llewyrchus yng nghanol y dref	• Sicrhau defnydd tymor hir adeilad rhestredig allweddol (Gradd II) yn y dref • Gwella oddeutu 0.49Ha o adeilad/tir • Creu rhyw 10 o swyddi yn y sector adloniant a'r celfyddydau • Creu rhyw 5 o swyddi yn y sector sinema/theatr • Cynnydd yn amser aros a gwariant yr ymwelwyr • Cryfhau'r economi liw nos	• SB1 • SQL2 • SQL4 • SQL7 • SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu- (Dan arweiniad y Sector Preifat ond potensial am Bartneriaeth Sector Preifat/CISWO/ Cyhoeddus)

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
B – Creu cyrchfan bywiog a hygyrch i ymwelwyr	B - 4 – Neuadd y Gweithyr Bedwas	Uwchraddio a gwella'r cyfleusterau	- Sicrhau defnydd tymor hir adeilad rhestredig allweddol (Gradd II) yn y dref - Cefnogi cyfleusterau cymunedol ym Masn ehangach Caerffili - Cryfhau'r economi liw nos	- SB1 - SQL2 - SQL4 - SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu
	B - 5 Gwell cyfleusterau parcio	Paratoi cynllun parcio yng nghanol y dref	- Gwella ansawdd aer yn yr AQMA - Cynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref - Gwella ansawdd bywyd i'r trigolion	- CPP1 - CPP3 - CPP4 - SQL7	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu – o bosibl rhwng £10,000 - £15,000 i ddatblygu'r cynllun Cost pwyntiau gwefru trydanol i'w penderfynu
C – Gwneud y mwyaf o bresenoldeb Castell Caerffili	C - 1 Park Lane	Datblygu safle allweddol sy'n edrych dros Gastell Caerffili yn westy, gan gwmpasu bwyty ac/neu gyfleusterau cynadledda o safon Hefyd yn bodloni Amcan Strategol D	- Datblygwyd oddeutu 0.2 Ha o dir/dychwelwyd tir gwag yn ôl i ddefnydd manteisiol yn Park Lane; - Creu swyddi – gallai cyfle datblygu cysylltiedig greu oddeutu 42 o swyddi CALI yn y sector masnachol; - Gallai Contract Adeiladu greu nifer o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu; - Cyfleoedd am hyfforddiant/prentisiaid yn ystod yr adeiladu – rhyw 4 o bobl; - Anogwyd buddsoddiad gan y sector preifat; - Gyda'i gilydd, byddai'r cynnydd yn yr arlwy twristiaeth yn gweld cynnydd mewn gwariant yng Nghanol y Dref gan 5 - 10%. - Cynyddu'r amser aros a gwariant gan dwristiaid a phobl fusnes. - Cryfhau'r economi liw nos	- SB1 - SQL2 - SQL4 - SQL7 - SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: £5M – 6M Dan arweiniad y Sector Preifat – angen cyllid bwlch sector cyhoeddus o bosibl-gofynion gwerthu tir/cost i'w phenderfynu. Potensial i ailgylchu Cyfalaf CBSC a geir o raddfa dir o fewn mentrau adfywio ehangach canol y dref. Buddsoddiad Park Lane CBSC o £750,000 i wneud y safle'n lân i ysgogi datblygiad sector preifat

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
C – Gwneud y mwyaf o bresenoldeb Castell Caerffili	C - 2 Atyniad Twristiaeth	Datblygu atyniad twristaidd yng nghanol y dref	- Creu swyddi yn y sector twristiaeth/treftadaeth - Mwy o arlwy twristaidd i gynyddu'r amser aros yn y dref - Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a gwariant	- SQL2 - SQL4 - SQL7	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu. Bydd yn dibynnu ar y lleoliad arfaethedig.
	C - 3 Llwybr twristiaeth	Creu llwybr twristaidd sy'n cysylltu safleoedd allweddol ac adeiladau o ddiddordeb	- Gwella statws Caerffili fel cyrchfan twristaidd - Mwy o arlwy twristaidd i gynyddu amser aros yn y dref - Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a gwariant - Cynyddu niferoedd yr ymwelwyr mewn atyniadau eraill	- SQL2 - SQL4 - SQL7	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu – gallai fod oddeutu £5,000 - £30,000 yn dibynnu ar gwmpas y gwaith
	C - 4 Twristiaeth Gweithgareddau	Cynyddu'r llety addas i'r farchnad dwristiaeth weithgar <i>(Yn gysylltiedig ag Amcan Strategol C1)</i>	- Gwella statws Caerffili fel cyrchfan twristaidd - Mwy o arlwy twristaidd i gynyddu'r amser aros yn y dref - Cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r gwariant - Cynyddu niferoedd yr ymwelwyr mewn atyniadau eraill	- SQL1 - SQL2 - SQL4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Cost: yn dibynnu ar raddfa a math o lety. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyflawni gan y sector preifat heb yr angen am gyllid.
	C - 5 Parc Morgan Jones	Gwella cysylltiad rhwng y dref a'r parc	- Gwella statws Caerffili fel cyrchfan twristaidd - Mwy o arlwy twristaidd i gynyddu amser aros yn y dref - Cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant - Cynyddu niferoedd yr ymwelwyr mewn atyniadau eraill - Gwella cysylltedd	- SQL2 - SQL4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu – bydd yn ddibynnol ar gwmpas y gwaith a ddymunir i wella cysylltedd.

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
C – Gwneud y mwyaf o bresenoldeb Castell Caerffili	C - 6 Gwelliannau i Gyfleusterau Bysus	Datblygu isadeiledd i ddarparu'n well ar gyfer gweithredwyr teithiau bysus gan gynnwys pwynt gollwng newydd i fysus	- Gwella statws Caerffili fel cyrchfan twristaidd - Mwy o arlwy twristaidd i gynyddu amser aros yn y dref - Cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant	- CPP1 - SQL2 - SQL4 - SQL7	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Isadeiledd bysus - £200,000
	C - 7 Digwyddiadau	Ehangu'r rhaglen ddigwyddiadau yn y dref Cynyddu nifer y lleoedd digwyddiadau	- Gwella statws Caerffili fel cyrchfan twristaidd - Mwy o arlwy twristaidd i gynyddu amser aros yn y dref - Cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant - Creu cyfleoedd gwaith dros dro - Gwneud y mwyaf o'r defnydd o leoedd allweddol yng nghanol y dref	- SQL2 - SQL4 - SQL7	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu – gallai fod oddeutu £100,000.
D – Gwella'r pyrrh allweddol	D - 1 Porth y Gorllewin - cysylltiadau	Gwelliannau i Barc Dafydd Williams	- Gwella cysylltedd cerddwyr - Gwelliant amgylcheddol - Cynnydd mewn amser aros	- SQL4 - CPP3 - SQL7	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu - bydd yn dibynnu ar gwmpas y gwaith a ddymunir i wella cysylltiadau/cysylltedd.
	D - 2 Porth y Gorllewin – arwyddion – Heol y Cilgant	Gwell arwyddion ac isadeiledd ym maes parcio Heol y Cilgant	- Gwella cysylltedd cerddwyr - Gwelliant amgylcheddol - Cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant	- CPP3 - SQL7	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu - bydd yn dibynnu ar gwmpas y gwaith a ddymunir i wella cysylltiadau/cysylltedd. Gallai fod oddeutu £5,000 - £10,000.

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
D – Gwella'r pyrrh allweddol	D - 3 Porth y Gorllewin – arwyddion – Gorsaf Aber	Gwell arwyddion rhwng canol y dref a Gorsaf Aber	- Gwell cysylltedd i gerddwyr - Cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant	- CPP3 - SQL7	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: I'w penderfynu-bydd yn dibynnu ar gwmpas y gwaith a ddymunir i wella cysylltiadau/cysylltedd. Gallai fod oddeutu £5,000-£10,000.
	D - 4 Porth y Gogledd – Hen Eglwys Beulah	Ailddatblygu safle ar gyfer datblygiad preswyl o'r radd flaenaf (fflatiau/tai)	- Aildddefnyddio safle adfeiliedig mewn lleoliad amlwg - Creu refeniw Ardoll Seilwaith Cymunedol - Amrywio'r stoc tai - Cyfleoedd gwaith yn y diwydiant adeiladu a manteision i'r gadwyn gyflenwi leol	- SB1 - SB2 - SQL5 - SQL7 - SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: I'w penderfynu–gallai fod oddeutu £8M, ond rhagwelir y bydd y safle hwn yn cael ei symud ymlaen gan y sector preifat.
	D - 5 Porth y Gogledd – Tafarn Piccadilly	Ailddatblygiad tymor hir o'r dafarn a'r tir o'i amgylch ar gyfer datblygiad defnydd cymysg	- Aildddefnyddio safle a danddefnyddir mewn lleoliad amlwg - Ailddatblygu oddeutu 0.207Ha o dir - Cyfleoedd i agor ardal orlawn a gwella ansawdd yr aer yn yr AQMA - Creu refeniw Ardoll Seilwaith Cymunedol os ydy preswyl yn cael ei gynnwys fel rhan o'r cynllun - Amrywio'r stoc tai - Cyfleoedd gwaith yn y diwydiant adeiladu a manteision i'r gadwyn gyflenwi leol	- SB1 - SB2 - SQL5 - SQL7 - CPP1 - SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: I'w penderfynu Tirfeddianwyr amryfal – partneriaethau sector cyhoeddus/preifat a gallai ofyn am orchymyn prynu gorfodol ar dir neu adeiladau i wneud y mwyaf o ardal y safle.

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
D - Gwella'r pyrrh allweddol	D - 6 Porth y Gogledd – Gwelliannau amgylcheddol	Gwelliannau amgylcheddol o gwmpas y castell a Maes Parcio Sgwâr Piccadilly	- Gwella harddwch yr ardaloedd agos at y castell - Potensial i wella ansawdd yr aer yn yr AQMA	- CPP1 - CPP3	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu – gallai fod oddeutu £30,000 - £100,000 yn dibynnu ar fanyleb y gwelliannau.
	D - 7 Porth y Gogledd – rheoli traffig	Ystyried rheoli traffig o gwmpas Cyffordd Piccadilly	- Potensial i wella ansawdd yr aer yn yr AQMA - Lleihau tagfeydd traffig yn y dref	- CPP1 - CPP3	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu
	D - 8 Porth y De - hen adeilad yr orsaf	Gwelliannau i ymddangosiad hen adeilad yr orsaf	Gwella harddwch yr ardal	CPP3	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu – Cyfle am CIG o bosibl (uchafswm grant o £15,000)
	D - 9 Porth y De - tirlunio	Cynyddu'r tirlunio meddal mewn ardal a reolir gan balmentydd a rheiliau	Gwella harddwch yr ardal	CPP3	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu
	D - 10 Porth y De - Unedau 89 - 97 Heol Caerdydd	Adnewyddu unedau i wella cydlynid yn y porth allweddol hwn Cyfle am ailddatblygiad tymor hir	- Gwella harddwch yr ardal yn y tymor byr - Ailddatblygu oddeutu 0.257Ha o dir - Creu oddeutu 65 o swyddi yn y sector manwerthu, lletygarwch yn y tymor hwy - Creu oddeutu 100 o swyddi yn y diwydiannau swyddfa yn y tymor hwy - Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ar Heol Caerdydd - Cryfhau cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref	- SB1 - CPP3 - SQL7 - SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu ond gallai fod oddeutu £105,000 ar gyfer y weledigaeth tymor byr a £3M+ ar gyfer y weledigaeth tymor hwy. Tirfeddianwyr amryfal – gallent ofyn am orchymyn prynu gorfodol ar dir neu adeiladau i wneud y mwyaf o ardal y safle.

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
D – Gwella'r pyrth allweddol	D - 11 Porth y De – rheoli traffig	Ystyried rheoli traffig o gwmpas Stryd Bartlett /Heol Caerdydd	- Potensial i wella ansawdd yr aer yn yr AQMA - Lleihau tagfeydd traffig yn y dref	CPP1	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: I'w penderfynu
	D - 12 Porth y De – gorsaf yr heddlu a'r llys ynadon	Ailddatblygu safleoedd yr hen orsaf heddlu a'r llys ynadon ar gyfer tai	- Datblygu rhwng 50 a 70 o unedau ar draws y ddau safle – bwriedir i'r orsaf heddlu fod ar gyfer tai pobl hŷn, a fydd yn amrywio'r stoc tai - Creu refeniw Ardoll Seilwaith Cymunedol - Cyfleoedd gwaith yn y diwydiant adeiladu a manteision i'r gadwyn gyflenwi leol	- SB1 - SB2 - SQL5 - SP4	Cyllid a Sicrhawyd : Dim hyd yma Rhagwelir y bydd gorsaf yr heddlu'n cael ei symud ymlaen gan y sector preifat. Rhagwelir y bydd y llys ynadon yn cael ei ddatblygu gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig
	D - 13 Porth y Dwyrain - Tir rhwng Heol Bedwas a Pharc Lansbury	Gwella'r lle agored mewn cydweithrediad â'r gymuned fel rhan o weithrediad Cynllun Man Dwfn Parc Lansbury	Cyflenwi Cynllun Man Dwfn Parc Lansbury.	- SB1 - SQL2 - SP8	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: I'w penderfynu I'w gyflwyno gan y Bwrdd Clymblaid dros Newid

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
E – Creu'r amodau er mwyn i'r ardal fod yn Ganolfan Metro lewyrchus	E - 1 Cyfnewidfa Gludiant a Chanolfan Fuddsoddi Caerffili	Ailddatblygu'r gyfnewidfa gludiant er mwyn creu Canolfan Metro, a gefnogir gan ddatblygiad defnydd cymysg fel 'canolfan fuddsoddi'	• Creu Canolfan Metro lewyrchus • Ailddatblygu tir – cyfanswm o oddeutu 2.2Ha (sy'n cynnwys ardal y Ganolfan Fuddsoddi arfaethedig); • Cyfnewidfa cludiant cyhoeddus tirnod newydd; • Gwell rhwydwaith cludiant; • Cyfleoedd am ddatblygiad masnachol yn adeilad yr orsaf; • Cynnydd mewn teithio mwy cynaliadwy a'r defnydd o wasanaethau trenau a bysuis; • Gwell cysylltiadau a chyfleusterau i gerddwyr/beicio. • Ailddatblygwyd tir – cyfanswm o oddeutu 2.2Ha (sy'n cynnwys ardal y Gyfnewidfa Gludiant); • Naill ai dymchwel ac ailgodi neu adfer hyd at 10 o adeiladau segur neu sy'n cael eu tanddefnyddio i ddefnydd manteisiol; • Cynnydd o oddeutu 10% yn nifer yr ymwelwyr â chanol y dref (rhyw 2500-3000 o ymwelwyr ychwanegol yr wythnos); • Creu swyddi – Oddeutu 145 o swyddi yn y sectorau masnachol/manwerthu/twristiaeth a'r sectorau busnes; • Cefnogaeth i barhau i dyfu busnesau	• SB1 • SB2 • SQL3 • SQL7	Cyllid a Sicrhawyd : Dim hyd yma <u>Cyfnewidfa:</u> £13m - £15m - Cyfnewidfa Gludiant tirnod modern <u>Canolfan Fuddsoddi</u> £5m -10m i brynu, dymchwel y stoc adeiladu a chyflwyno isadeiledd a datblygiad newydd. Mae angen Gorchmynion Prynu Gorfodol i greu canolfan fuddsoddi o gwmpas yr orsaf - £4m (yn seiliedig ar 20 eiddo am oddeutu £200,000)

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
E – Creu'r amodau er mwyn i'r ardal fod yn Ganolfan Metro lewyrchus	E - 2 Ehangu Parc Busnes Caerffili ac Ehangu ICE Cymru	Datblygu 2.2 Ha o dir llwyd i orllewin Parc Busnes Caerffili, Ailddatblygu unedau mewn mannau eraill ar y Parc Busnes nad ydynt yn addas i'r diben.	• Datblygu 2.2 ha o dir cyflogaeth gwag safonol • Datblygu Adeilad Swyddfeydd 2/3 llawr eiconig newydd; • Creu rhyw 1956 metr sgwâr o le swyddfa newydd; • Darpariaeth geidwadol o 30 o unedau dechreuol hyblyg newydd; • Creu Swyddi – Amcangyfrif o 75 o swyddi amser llawn/rhan-amser (wedi'u seilio ar gyfartaledd o 2.5 person CALI fesul uned); • Swyddi cadwyn gyflenwi cysylltiedig yn yr ardal; • Helpu datblygu model o dwf busnes ICE Cymru; • Cefnogi'r gwaith o greu, a gwella goroesiad busnesau newydd trwy gefnogaeth ICE (creu swyddi uchelgais uchel ar gyfer yr ardal); • Creu 250 o fusnesau newydd y flwyddyn (gan anelu at gyrraedd 1,250 mewn 5 mlynedd) ledled y fwrdeistref sirol trwy gefnogaeth ICE; • 40-60 o swyddi cysylltiedig ag adeiladu; • Rhyw 6-8 o gyfleoedd hyfforddiant (wedi'u seilio ar 1 hyfforddai fesul £1m o wariant). • Cefnogi'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer datblygu sgiliau	• SB2 • SB3 • SB4 • SB5 • SQL3 • SP5	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma. • Ymrwymiad gan ICE • Ymrwymiad gan berchnogion tir preifat ar gyfer cynlluniau i ehangu • Tir CBSC wedi'i glustnodi i'w datblygu. Cyfanswm Costau: l'w penderfynu ond gallai fod oddeutu £6 - £8m+ <i>Amcangyfrif costau sy'n gysylltiedig â difwyniad a draenio - £500,000</i> <i>Amcangyfrif costau sy'n gysylltiedig ag isadeiledd y priffyrdd - £1.5m</i>

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
E – Creu'r amodau er mwyn i'r ardal fod yn Ganolfan Metro lewyrchus	E - 3 Ness Tar a lard Sborion Pesci	Ailddatblygu dau safle difwynedig mewn prif leoliad wrth ymyl canol y dref ar gyfer datblygiad cymysg – preswyl, swyddfeydd B1, unedau byw/ gweithio a hamdden (canolfan hamdden o bosibl). Tir wedi'i ddiogelu ar gyfer ffordd osgoi fel rhan o'r datblygiad	● Adfer rhyw 10Ha o dir difwynedig (gan dynnu ymaith unrhyw fygythiad potensial ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol); ● Di-beryglu'r safle strategol yn Ness Tar ac Ystadau Plymouth ar gyfer y sector preifat; ● Cryfhau arlwy manwerthu/gwasanaethau canol y dref; ● Gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol (Corn Simnai Brics Rhestredig Gradd II); ● 3 Hectar o dir cyflogaeth wedi'i ryddhau (yn agos at ganol y dref a'r ganolfan gludiant); ● Creu oddeutu 124 o unedau diwydiannol ysgafn newydd; ● Creu Swyddi – darparu oddeutu 120-240 o swyddi amser llawn yn y tir cyflogaeth; ● Darpariaeth Hamdden newydd yng nghanol y dref mewn lleoliad hawdd ei gyrraedd; ● Darparu 200 o gartrefi (gan gynnwys tai fforddiadwy); ● Oddeutu 220 o swyddi anuniongyrchol/wedi'u hysgogi o ddatblygiad preswyl; ● Oddeutu 20 o swyddi gweithredol parhaol newydd a grëwyd trwy wariant preswyl; ● Oddeutu £41m o effaith net ar yr economi o ddatblygiad preswyl.	● SB2 ● SB3 ● SB4 ● SB5 ● SQL3 ● SQL5 ● SP5	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu – Gallai fod oddeutu £25m-£30m Yn cynnwys adfer, isadeiledd, datblygiadau newydd a goresgyn materion mynediad <i>Mae amcangyfrif costau ailgyflwyno a darparu isadeiledd oddeutu £6m</i> O bosibl hyd at £13m ar gyfer Canolfan Hamdden (CBSC) newydd

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
F - Gwella cysylltedd ym Masn Caerffili a chydag ardaloedd eraill	Cynlluniau Gwella CDLI (a ddynodwyd yn TR6 y CDLI)	Gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd strategol yn ● Llwybr Cerdded Tafwys ● Cylchfan Pwllpant (mae'r cynllun yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd) ● Cylchfan Pont Bedwas ● System Gylchu Piccadilly ● Penrhos i Bwllpant ● Pwllpant i Fedwas Mae rhagor o fanylion y cynigion wedi'u gosod yn Atodiad 15 yr CDLI	● Gwella ansawdd yr aer yn yr AQMA ● Gwelliant i'r isadeiledd priffyrdd presennol ● Lleddfu tagfeydd ● Lleihau oedi i fusnesau ● Cyfleoedd gwaith yn y diwydiant adeiladu a manteision y gadwyn gyflenwi leol	● CPP1	Cyllid a Sicrhawyd i Gynllun Pwllpant (oddeutu £6 miliwn) ond dim gwelliannau eraill hyd yma Cyfanswm Cost ar gyfer cynlluniau eraill: l'w penderfynu. Angen dyluniadau manwl

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
F - Gwella cysylltedd ym Masn Caerffili a chydag ardaloedd eraill	F - 1 Parcio a Theithio Llanbradach	Creu parcio a theithio newydd yn Llanbradach, sy'n gysylltiedig â gorsaf a symudwyd. Datblygu defnyddiau cyflogaeth cefnogol fel rhan o ganolfan newydd	• Datblygwyd oddeutu 7.2Ha o 'dir llwyd' • Datblygu isadeiledd cludiant newydd (arhosfan rheilffordd) i helpu ysgogi buddsoddiad • Darparu oddeutu 500 – 1,000 o Leoedd Parcio a Theithio • Lleddfu tagfeydd yn yr ardal a thuag at Gaerdydd • Gwell cysylltedd ar draws yr ardal a'r rhanbarth ehangach • O'r 7.2 Ha – daethpwyd â rhyw 2.9 Ha o dir llwyd heb ei ddatblygu yn ôl i ddefnydd gwaith • Creu swyddi – Crëwyd hyd at 120-200 o swyddi • Creu oddeutu 8,700 metr sgwâr o le cyflogaeth newydd	• SB2 • SB4 • CPP3 • CPP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Cost: l'w penderfynu <i>(O bosibl £6M+ i ddatblygu unedau cyflogaeth/dechreuol)</i> Dichonoldeb ac astudiaethau'n rhoi manylion y costau angenrheidiol.
	F - 2 Rheilffordd Casnewydd-Machen	Adfer hen reilffordd Caerffili i Gasnewydd ar gyfer cludiant teithwyr	• Creu gwell cysylltiadau rhwng Caerffili a Chasnewydd; • Ysgogi buddsoddiad ar hyd y llwybr; • Cynyddu atynioldeb Caerffili ar gyfer buddsoddiad o'r tu allan • Lleddfu tagfeydd yng Nghaerffili	• CPP2 • CPP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Cost: l'w phenderfynu - Dichonoldeb ac astudiaethau'n rhoi manylion y costau angenrheidiol. Caffael tir angenrheidiol ar ôl i'r dull a'r dyluniad gael eu penderfynu.

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
F - Gwellu cysylltedd ym Masn Caerffili a chydag ardaloedd eraill	F - 3 Ffordd Osgoi De Ddwyrain Caerffili (Diogelu'r Coridor Priffyrdd wedi'i gynnwys o dan Bolisi TR9 yr CDLI)	Uchelgais tymor hir i ddatblygu ffordd osgoi'r De Ddwyrain i gwblhau'r ffordd gylchol o gwmpas tref Caerffili	- Gwellu ansawdd yr aer yn yr AQMA - Creu oddeutu 0.5 milltir o isadeiledd priffyrdd newydd - Lleddfu tagfeydd - Bydd yn gwellu mynediad i safleoedd allweddol yn y ganolfan fuddsoddi - Cyfleoedd gwaith yn y diwydiant adeiladu a manteision i'r gadwyn gyflenwi leol	CPP1	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: Bydd y gost yn dibynnu ar y llwybr dethol – ond gallai fod oddeutu £25M - £30M.
	F - 4 Cyfleusterau Parcio Beiciau	Darparu cyfleusterau beicio ym mhob canolfan gludiant (gorsafoedd Caerffili, Aber, Eneu'r Glyn a Churchill a Llanbradach) ynghyd â chyrchfannau cyflogaeth ac manwerthu allweddol	- Cynyddu'r defnydd o fathau cludiant cynaliadwy - Lleddfu tagfeydd	CPP2	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: I'w penderfynu – rhagwelir y bydd yn ffurfio rhan o waith arall ar gontract.
	F - 5 Cynllun Llogi Beiciau	Darparu cynllun llogi beiciau gyda mannau llogi mewn dynodiadau allweddol.	- Cynyddu'r defnydd o fathau cludiant cynaliadwy - Lleddfu tagfeydd	CPP2	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: I'w penderfynu

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
G – Darparu'r amodau i gryfhau cyfleoedd gwaith -	G - 1 Tŷ Cenydd (hen adeilad UWHA)	Defnyddio adeilad swyddfeydd Tŷ Cenydd at ddefnydd swyddfa B1	• Ailddatblygu/ailddefnyddio oddeutu 0.07Ha o dir safonol • Defnyddio 913m2 o le swyddfa • Creu oddeutu 65 o swyddi CALI • Mwyhau'r defnydd o adeilad allweddol mewn lleoliad amlwg	• SB2 • SB4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Rhagwelir y bydd y safle'n cael ei gyflawni gan y sector preifat – 'Gwerth Ardrethol' potensial o £90,275 o fis Ebrill 2017. Gallai'r Ardrethi i'w Talu ar gyfer 2017 fod yn £43,874 y flwyddyn (£4.46 fesul troedfedd sgwâr y flwyddyn).
	G - 2 Tir sy'n uno â Pharcio a Theithio Llanbradach	Gweler F - 1	Gweler F - 1	• Gweler F-1	Gweler F-1
	G - 3 Parc Busnes Treceynydd	Datblygu 2.2 Ha ar gyfer cyflogaeth ym Mharc Busnes Treceynydd ac ailddatblygu unedau o ansawdd presennol i wneud y mwyaf o botensial y safle cyflogaeth allweddol hwn yn agos at Orsaf Aber.	• 2.23 Hectar o dir cyflogaeth wedi'i ryddhau ym Mharc Busnes Treceynydd; • Creu oddeutu 91 o unedau diwydiannol ysgafn newydd; • Creu Swyddi – darparu oddeutu 90 -180 o swyddi amser llawn yn y tir cyflogaeth; • Datblygu defnyddiau preswyl/cyflogaeth yn Eneu'r Glyn. • Cyfleoedd gwaith yn y diwydiant adeiladu a manteision i'r gadwyn gyflenwi leol • Cefnogi'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer datblygu sgiliau	• SB1 • SB2 • SB3 • SB4 • SP5	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: I'w penderfynu – gallai fod oddeutu £9M ar gyfer unedau dechreuol.

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
H – Cefnogi datblygiad tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac mewn lleoliadau cynaliadwy mewn aneddiadau	H - 1 Cyfleoedd Datblygu Allweddol mewn Aneddiadau Presennol – Glofa Windsor, Abertridwr	Cyflawni tai mewn ardal lle mae angen amrywio'r cyflenwad tai a mynd i'r afael â'r angen am farchnad a thai fforddiadwy	- Datblygu rhwng 200 a 250 o anheddau marchnad a fforddiadwy - Oddeutu 275 o swyddi anuniongyrchol/wedi'u creu o ddatblygiad preswyl; - Creu oddeutu 25 o swyddi gweithredol parhaol trwy wariant preswyl; - Oddeutu £52m o effaith net ar yr economi o'r datblygiad preswyl. - Cyfleoedd gwaith yn y diwydiant adeiladu a manteision i'r gadwyn gyflenwi leol	- SB1 - SB2 - SQL5 - SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Potensial i gael ei ddatblygu fel rhan o fodel prydlesu arloesol trwy bartneriaeth rhwng yr ALI a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gallai ofyn am gyllid i bontio'r bwlch gan fod y safle mewn ardaloedd hyfywedd isel.
	H - 2 Cyfleoedd Datblygu Allweddol mewn Aneddiadau Presennol – Waterloo Works, Waterloo	Cyflawni tai mewn ardal lle mae angen amrywio'r cyflenwad tai a mynd i'r afael â'r angen am farchnad a thai fforddiadwy	- Ailddatblygu 16.6ha o safle tir llwyd; - Darparu 545 o gartrefi gan gynnwys tai fforddiadwy, lle agored cyhoeddus - Oddeutu 600 o swyddi anuniongyrchol/wedi'u hannog o ddatblygiad preswyl; - Oddeutu 55 o swyddi gweithredol parhaol newydd a grëwyd trwy wariant preswyl; - Effaith net o oddeutu £112m ar yr economi o ddatblygiad preswyl; - Darparu cyfleusterau cymunedol newydd. - Creu refeniw Ardoll Seilwaith Cymunedol a chyfraniad adran 106 - Cyfleoedd gwaith yn y diwydiant adeiladu a manteision i'r gadwyn gyflenwi leol	- SB1 - SB2 - SQL5 - SP2 - SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Costau adfer helaeth hyd yma. Rhagwelir y bydd y safle'n cael ei gyflawni gan y sector preifat ond hwyrach y byddai bwlch hyfywedd os bydd y costau adfer yn cael eu rhagori ymhellach. Cyflwyno Cais Cynllunio Llawn (P/06/0037) – yn amodol ar Gytundeb Adran 106. Deialog parhaus gyda pherchnogion Ness Tar, Glofa Bedwas a Waterloo mewn perthynas ag ailddatblygu'r safleoedd tir llwyd pwysig hyn.

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
H – Cefnogi datblygiad tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac mewn lleoliadau cynaliadwy mewn aneddiadau	H - 3 Cyfleoedd Datblygu Allweddol mewn Aneddiadau Presennol – Catnic, Caerffili	Cyflawni tai mewn ardal lle mae angen amrywio'r cyflenwad tai a mynd i'r afael â'r angen am farchnad a thai fforddiadwy	• Ailddatblygu oddeutu 5 Ha o dir • Datblygu 175 o anheddau • Oddeutu 193 o swyddi anuniongyrchol/wedi'u hannog o ddatblygiad preswyl; • Crëwyd oddeutu 18 o swyddi gweithredol parhaol newydd trwy wariant preswyl; • Effaith net o oddeutu £36m ar yr economi o ddatblygiad preswyl. • Creu refeniw Ardoll Seilwaith Cymunedol • Mae gwerthiant y safle'n hwyluso'r gwaith o symud ac ehangu busnesau presennol, gan greu swyddi ychwanegol ar y cyfan • Cyfleoedd gwaith yn y diwydiant adeiladu a manteision i'r gadwyn gyflenwi leol	• SB1 • SB2 • SQL5 • SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Rhagwelir y bydd y safle'n cael ei gyflawni gan y sector preifat. Cyflwynwyd Cais Cynllunio Amlinellol (Cyf: 16/0208/OUT)

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
H – Cefnogi datblygiad tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac mewn lleoliadau cynaliadwy mewn aneddiadau-	H - 4 Cyfleoedd Datblygu Allweddol mewn Aneddiadau Presennol – Glofa Bedwas, Bedwas	Cyflawni tai mewn ardal lle mae angen amrywio'r cyflenwad tai a mynd i'r afael â'r angen am farchnad a thai fforddiadwy. Darparu ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd, Potensial am swyddfeydd B1	● Adfer safle tir llwyd amlwg a chynghorion glofa, gan ddileu unrhyw fygythiad potensial i genedlaethau'r dyfodol; ● 3 Hectar o dir cyflogaeth wedi'i ryddhau yn agos at Graig y Rhacca; ● Creu oddeutu 124 o unedau diwydiannol ysgafn newydd ● Creu Swyddi – darparu oddeutu 120 - 240 o swyddi amser llawn yn y tir cyflogaeth; ● Darparu darpariaeth hamdden mawr ei hangen i wasanaethu Basn Caerffili; ● Di-beryglu'r safle i'r sector preifat; ● Darparu 500 o gartrefi (gan gynnwys tai fforddiadwy) mewn lleoliad cynaliadwy mewn ardal lle mae angen difrifol am dai; ● Oddeutu 550 o swyddi anuniongyrchol/wedi'u hannog o ddatblygiad preswyl; ● Crëwyd oddeutu 50 o swyddi gweithredol parhaol newydd trwy wariant preswyl; ● Effaith net o oddeutu £103m ar yr economi o ddatblygiad preswyl.	● SB1 ● SB2 ● SB4 ● SQL5 ● SP2 ● SP4	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma £30 - £32miliwn – i gynnwys adfer, isadeiledd, datblygiad newydd a goresgyn materion mynediad Ceir bwlch hyfywedd arwyddocaol. Dichonoldeb / Cysyniad – deialog parhaus gyda pherchnogion Ness Tar, Glofa Bedwas a Waterloo yn ymwneud ag ailddatblygu'r safleoedd tir llwyd pwysig hyn.
	H - 5 Cyfleoedd Datblygu Allweddol mewn Aneddiadau Presennol– Ness Tar, Caerffili	Gweler E-3	● Gweler E-3	Gweler E-3	Gweler E-3

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
I – Darparu lefel addas o gyfleusterau hamdden ac addysg gymunedol i gefnogi lefel botensial o dwf poblogaeth a thai ym Masn Caerffili	I1 Canolfan Hamdden Caerffili	Ail-ddatblygu neu ailwampio Canolfan Hamdden Caerffili presennol	• Darparu cyfleusterau hamdden modern newydd • Gwellu iechyd y boblogaeth • Swyddi wedi'u diogelu	• SQL2 • SP4 • SP8	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Amcangyfrifir bod y costau adnewyddu ar gyfer y ganolfan hamdden yn £8 - 9 miliwn. Byddai codi canolfan hamdden newydd yn costio oddeutu £14 -15 miliwn.
	I-2 ail-leoli Ysgol Gynradd Tŷ'n-y-wern	Adeiladu ysgol newydd yn lle ysgol gynradd bresennol Tŷ'n-y-wern ar safle ysgol uwchradd Bedwas	• Ymdrin â'r diffyg posibl mewn lleoedd ysgol yn gysylltiedig â datblygiadau newydd • Darparu cyfleusterau addysg modern • Diogelu swyddi addysgu a chymorth	• SP2	Cais wedi cyflwyno i ysgolion yr 21ain ganrif. Cyfanswm y gost: £5,500,000
	I-3 Ailwampio safle Ysgol Gynradd Tŷ'n-y-wern ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Ailwampio safle presennol Ysgol Gynradd Tŷ'n-y-wern er mwyn creu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd	• Mynd i'r afael â'r diffyg posibl mewn lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd • Darparu cyfleusterau addysg modern • Swyddi addysgu a chymorth newydd	• SP2	Cais wedi cyflwyno i ysgolion yr 21ain ganrif. Cyfanswm y gost: £750,000
	I-4 Adeiladu darpariaeth Ysgol Gynradd Plasyfelin newydd	Adeiladu ysgol newydd yn lle ysgol bresennol Plasyfelin ar safle presennol yr ysgol	• Mynd i'r afael â diffyg posibl mewn lleoedd mewn ysgolion sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd • Darparu cyfleusterau addysg modern • Diogelu swyddi addysgu a chymorth	• SP2	Cais wedi cyflwyno i ysgolion yr 21ain ganrif. Cyfanswm y gost: £9 miliwn

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
I – Darparu lefel addas o gyfleusterau hamdden ac addysg gymunedol i gefnogi lefel botensial o dwf poblogaeth a thai ym Masn Caerffili	I-5 Ysgol Gynradd Sant Iago	Ymestyn Ysgol Gynradd Sant Iago	● Mynd i'r afael â diffyg posibl mewn lleoedd mewn ysgolion sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd ● Darparu cyfleusterau addysg modern ● Diogelu swyddi addysgu a chymorth ● Amrywio cymysgedd y plant	● SP2	Cais wedi cyflwyno i ysgolion yr 21ain ganrif. Cyfanswm y gost: £2 miliwn
	I-6 Canolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned	Adnewyddu lloriau uchaf i ddarparu cegin, ystafell waith, ystafelloedd crefft a cherddoriaeth a Chanolfan mentrau cymdeithasol (Cam 3-5)	● Gwell defnydd o adeilad cymunedol amlwg – gofod ychwanegol o 490m2 ● Creu mannau a fydd yn cefnogi swyddi a hyfforddiant ac yn darparu ar gyfer mentrau cymdeithasol ● Cyfleoedd newydd/gwell i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, tlodi, allgau economaidd ac unigedd cymdeithasol yn ogystal â lles pobl a chydlyniant cymunedol; ● Gwelliannau amgylcheddol allanol sy'n cyfoethogi lleoliad yr adeilad a'r cyfleusterau parcio	● SP1 ● SP2 ● SP4 ● SP6 ● SB5 ● SB6 ● SQL2	Mae arian Grant Adeiladau ar gyfer y Dyfodol wedi cael ei gymeradwyo mewn egwyddor, yn amodol ar y Ganolfan yn sicrhau arian cyfatebol. Cyfanswm y gost: £900,000

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol	Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio	Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial
J - Cefnogi a diogelu amgylchedd naturiol a threftadaeth yr ardal	J-1 Paratoi Strategaeth Seilwaith Gwyrdd	Rhaglen 20 mlynedd ar gyfer integreiddio, datblygu a rheoli rhwydwaith o seilwaith gwyrdd, gyda chymorth cynllun cyflawni a gweithredu pum mlynedd	- Nodi a blaenoriaethu manau gwyrdd allweddol o fewn y Fwrdeistref Sirol. - Sicrhau bod seilwaith gwyrdd wedi'i fewnosod i ddyluniad datblygiadau newydd - Rheolaeth a defnydd o goridorau gwyrdd wedi'u haddasu.	- SQL1 - SQL4	Cyllid i baratoi Strategaeth a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru
	J-2 Partneriaeth Tirwedd De Caerffili	Cynllun tirwedd a hamdden ar gyfer ardal Basn Caerffili	Amddiffyn tirwedd allweddol Datblygu'r cynnig hamdden	- SQL1 - SQL4	Wedi'i ariannu gan yr UE fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig
K – Sicrhau bod hygyrchedd i bawb yn cael ei ymgorffori ym mhob cynllun gwella		Amcan croestoriadol yw hwn y dylid ei ystyried yn rhan annatod o bob prosiect		SQL3	
L – Sicrhau y gall holl gymunedau Caerffili gymryd rhan yn y Prif Gynllun ac elwa arno	L-1 - Cynllun Man Dwfn Parc Lansbury	Datblygu a gweithredu theori newid seiliedig ar leoedd a amlinellwyd yng Nghynllun Man Dwfn Parc Lansbury (2017).	Mae Cynllun Man Dwfn Parc Lansbury yn rhaglen amlhaenog ar gyfer creu lleoedd cynaliadwy yn y gymuned. Yn hynny o beth, mae sawl allbwn sy'n ymwneud â sylfeini cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned.	- SB1 - SB6 - SQL3 - SQL6 - SP1-SP11	Cyllid a Sicrhawyd: Dim hyd yma Cyfanswm Costau: l'w penderfynu

Atodiad 1 – Amcanion y Strategaeth Adfywio

Cefnogi Busnes

- SB1 Adeiladu Economi gadarnach a mwy amrywiol
- SB2 Cefnogi Twf Economaidd ac Arloesedd
- SB3 Creu amgylchedd sydd yn meithrin busnes
- SB4 Safleoedd Allweddol a Seilwaith ar gyfer Cyfleoedd Gwaith
- SB5 Hybu Cefnogaeth i Fusnesau a Mentergarwch
- SB6 Gwella'r cyswllt rhwng busnesau, ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant

Cefnogi Ansawdd Bywyd

- SQL1: Rheoli'r dreftadaeth naturiol a'i hadnoddau yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, tra'n rhoi sylw i ddatblygiadau cynladwy hanfodol, diogelu bywyd gwyllt ac annog y defnydd o fannau gwyrdd i hyrwyddo lles.

- SQL2: Gwella mynediad i ddiwylliant, hamdden a'r celfyddydau
- SQL3: Creu Ardal Fywiog
- SQL4: Mae angen cynyddu twristiaeth yng Nghaerffili, gan ganolbwyntio ar dreftadaeth hanesyddol a naturiol yr ardal a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cyflwyno.
- SQL 5: Gwella'r ddarpariaeth o dai newydd ac ehangu'r stoc dai ar draws pob daliadaeth.
- SQL6: Gwella ansawdd y stoc dai bresennol drwy ymyrraeth wedi ei dargedu; yn enwedig o safbwynt stoc dai'r Cyngor.
- SQL 7: Ailffocysu canol y trefi i gwrdd ag anghenion preswylwyr a busnesau.

Cysylltu Pobl a Lleoedd

- CPP1: Hyrwyddo ac adnabod prosiectau priffyrdd mawr a fyddai'n gwella cysylltedd yn sylweddol.

- CPP2: Hyrwyddo Integreiddio a Chysylltu Cludiant Cyhoeddus.
- CPP3: Hyrwyddo datblygu safleoedd o gwmpas canolfannau teithio allweddol
- CPP4: Hyrwyddo gwelliannau i reilffyrdd yn weithredol a sefydlu cysylltiadau newydd.
- CPP5: Lleihau lefel allgymudo
- CPP6: Hyrwyddo cysylltedd digidol

Cefnogi Pobl

- SP1 Cynyddu Cyflogadwyedd
- SP2 Codi Cyrhaeddiad Addysgol
- SP3: Lleihau cyfraddau diweithdra
- SP4: Gwella cydnherthed yr economi trwy gefnogi a datblygu'r economi sylfaenol
- SP5: Datblygu sgiliau mewn ardaloedd twf allweddol.

- SP6: Targeddu ymyrraeth gyda grwpiau allweddol
- SP7: Sicrhau bod 'pecyn gwasanaethau' clir a chydlynol ar gael er mwyn ailgysylltu pobl gyda gwaith.
- SP8: Cefnogi ymyrraethau i wella iechyd
- SP9: Lleihau anghyfartaledd trwy leihau nifer yr ardaloedd cynnyrch ehangach sydd o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- SP10 Sicrhau bod Caffael Diwylliannol yn ystyriaeth allweddol wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau
- SP11 Mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith



Atodiad 2 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r prif gynllun wedi rhoi sylw i'r saith nod llesiant a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er mwyn dangos hyn, gwnaed asesiad o ran pa nodau llesiant y byddai pob amcan strategol yn eu cefnogi. Amcanion strategol y Prif Gynllun yw:

- Gwellu'r cynnig adwerthu yn y dref
- Creu cyrchfan bywiog a hygyrch i ymwelwyr
- Gwneud y mwyaf o bresenoldeb Castell Caerffili
- Gwellu'r pyrth allweddol;
- Creu'r amodau i'r ardal ddod yn ganolbwynt Metro ffyniannus;
- Gwellu cysylltedd o fewn Basn Caerffili ac i ardaloedd eraill
- Darparu'r amodau i gryfhau cyfleoedd cyflogaeth
- Cefnogi datblygiad tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ynghyd â'r seilwaith angenrheidiol ar dir datblygedig ac mewn lleoliadau cynaliadwy o fewn aneddleoedd
- Darparu lefel addas o gyfleusterau hamdden ac addysg gymunedol i gefnogi lefel bosibl poblogaeth a thwf tai ym masn Caerffili
- Sicrhau bod mynediad i bawb wedi'i ymgorffori ym mhob cynllun gwella
- Sicrhau bod pob un o gymunedau Caerffili yn gallu ymgysylltu a chael budd o'r Prif Gynllun

Nod	Disgrifiad o'r nod	Sut y caiff ei gyflawni gan y Prif Gynllun
Cymru Lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus wedi'i haddysgu'n dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith da.	<i>Amcanion strategol perthnasol - A, D, G, I, J</i> Bydd nifer o'r prosiectau a nodwyd yn cynyddu cyflogaeth ar draws ystod o sectorau. Bydd ehangu'r cynnig manwerthu a chyflogaeth yn y dref yn lleihau'r angen i deithio y tu allan i'r fwrdeistref sirol, gan leihau'r ôl-troed carbon. Mae'r Prif Gynllun hefyd yn ceisio darparu cyfleusterau addysg priodol, a fydd yn cyfrannu at ddarparu poblogaeth sydd â sgiliau ac addysg dda.
Cymru Gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd).	<i>Amcanion strategol perthnasol - B, F, J</i> Yn ganolog i weledigaeth y Prif Gynllun yw'r gydnabyddiaeth bod basn Caerffili wedi'i osod o fewn amgylchedd naturiol deniadol. Tynnir sylw at hyn hefyd yn y strategaeth ddatblygu, lle amlygir y ffaith y bydd yr angen i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau yn ystyriaeth bolisi allweddol wrth baratoi cynigion. At hynny, mae'r strategaeth yn y Prif Gynllun yn ceisio hyrwyddo ailddatblygu safleoedd tir llwyd er mwyn lleihau effaith datblygiadau ar yr amgylchedd naturiol. Mae hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy ac yn cyfeirio at y cyfleoedd i ymgorffori technolegau adnewyddadwy mewn cynigion datblygu. Cydnabyddir bod yr amgylchedd naturiol yn bwysig o safbwynt twristiaeth a hefyd fel ardal sy'n cael ei gwerthfawrogi gan breswylwyr.
Cymru Iachach	Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael eu defnyddio i'r eithaf a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.	<i>Amcanion strategol perthnasol - I, F, J</i> Mae prosiectau wedi'u cynnwys yn y prif gynllun sy'n hyrwyddo teithio llesol ac yn gwella cysylltedd rhwng mannau agored allweddol. Mae'r uwchgynllun hefyd yn cydnabod bod angen gwella'r ddarpariaeth canolfannau hamdden yn y dref. Bydd gwella amgylchedd ffisegol y dref o fudd i les corfforol a lles meddyliol.

Goal	Description of the goal	How it will be achieved by the Masterplan
Cymru sy'n Fwy Cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).	<i>Amcanion strategol perthnasol - H, J, L</i> Bydd y prosiectau a nodwyd yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ym mhob sector, gan gynnwys yr economi sefydlol. Mae'r Prif Gynllun hefyd yn cydnabod yr heriau a brofir yn y cymunedau mwy difreintiedig (e.e. Parc Lansbury) ac mae adran 7 yn nodi sut mae'r prosiectau yn cysylltu ag amcanion y strategaeth adfywio, lle mae cydraddoldeb yn rhan annatod ohonynt. Bydd darparu tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, fel bod gan bawb le i fyw ynddo hefyd yn cyfrannu at hyn.
Cymru o Gymunedau Cydlynus	Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.	<i>Amcanion strategol perthnasol - B, D, F, K</i> Mae nifer o gynigion a fydd yn gwella cysylltedd rhwng ardaloedd. At hynny, bydd adfywio nifer o safleoedd allweddol yn ffisegol ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau, ynghyd â gwelliannau amgylcheddol, yn gwneud Caerffili yn ardal fwy atyniadol, hyfyw a diogel. Mae'r Prif Gynllun yn ceisio hyrwyddo tai mewn lleoliadau cynaliadwy, gan gynnwys fel rhan o ddatblygiadau defnydd cymysg o fewn canol y dref, a fydd yn sicrhau bod cysylltiad da rhwng datblygiadau newydd a gwasanaethau a chyfleusterau.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.	<i>Amcanion strategol perthnasol - B, C, I, J</i> Mae gwneud y mwyaf o bresenoldeb Castell Caerffili yn elfen allweddol o'r Prif Gynllun a chefnogir cynigion i wella'r cynnig twristiaeth sy'n gysylltiedig â'r atyniad treftadaeth allweddol hwn. Bydd y Prif Gynllun ar gael yn ddwyieithog.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud rhywbeth o'r fath, wneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang.	<i>Amcanion strategol perthnasol - B, F, J</i> Mae cysylltiadau cryf rhwng y nod hwn a Chymru gydnerth. Mae'r strategaeth ddatblygu yn tynnu sylw at y ffaith bod angen cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, a bydd hyn yn ystyriaeth bolisi allweddol wrth baratoi cynigion. At hynny, mae'r strategaeth yn y prif gynllun yn ceisio hyrwyddo ailddatblygu safleoedd tir llwyd er mwyn lleihau effaith datblygiadau ar yr amgylchedd naturiol. Mae hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o ddulliau trafniadaeth mwy cynaliadwy ac yn cyfeirio at y cyfleoedd i ymgorffori technolegau adnewyddadwy mewn cynigion datblygu.

Llywiwyd datblygiad y Prif Gynllun hefyd gan y pum ffordd o weithio

Cynnwys – Datblygwyd y Prif Gynllun trwy weithdai ymgysylltu gyda nifer o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Grwp Rheoli Canol y Dref, tîrfeddianwyr allweddol a phartïon cyfrannog, aelodau wardiau awdurdodau lleol sy'n cynrychioli Basn Caerffili, cynghorwyr cymuned a chynrychiolwyr allweddol. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cael ei gynnal hefyd i gaffael safbwyntiau'r rhanddeiliaid ehangach

Cydweithredu – Tynnodd ddatblygiad y Prif Gynllun oddi ar arbenigedd cynrychiolwyr allweddol ar draws adrannau'r awdurdodau lleol, gan gynnwys Cynllunio, Adfywio, Tai, Peirianeg, Addysg, Hamdden, Eiddo a Chefn Gwlad. Bydd cyflawni'r prosiectau a ddynodwyd yn y Prif Gynllun yn golygu cydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sectorau.

Tymor hir – Mae'r amcanion a ddynodwyd, ac mae'r prosiectau a fydd yn cyflawni'r amcanion hyn, yn rhan o weledigaeth tymor

hwy o wella rôl Caerffili fel tref ffyniannus, fywiog. Mae'r Prif Gynllun yn cydnabod yr angen am ddatblygiad er mwyn cefnogi twf economaidd, ond yn cydnabod y dylai'r datblygiad hwn fod mewn lleoliadau cynaliadwy.

Integreiddio – Bydd y prosiectau a ddynodwyd yn y Prif Gynllun yn helpu cyflawni nifer o'r Amcanion a ddynodwyd yn Strategaeth Adfywio'r Cyngor 'Sail ar gyfer Llwyddiant' (fel y gosodwyd yn Adran 7 yr adroddiad hwn). Byddan nhw hefyd yn cyflawni yn erbyn Amcanion Lles y Cyngor ar gyfer 2017/18 trwy ddynodi prosiectau a fydd yn arwain at greu swyddi a chyfleoedd am hyfforddiant, a fydd yn helpu mynd i'r afael â thlodi. Mae'r prosiectau'n hyrwyddo ffyrdd o fyw mwy gweithgar ac iach ac yn lleihau'r ôl troed carbon trwy well llwybrau a chyfleusterau teithio gweithgar yn lleol.

Atal – Mae'r Prif Gynllun yn cydnabod bod nifer o heriau yn nhref Caerffili y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn cyflawni'r Weledigaeth. Bydd y prosiectau a ddynodir

yn ymateb i'r pryderon allweddol hyn er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwaethygu. Bydd y prosiectau a ddynodir yn cynyddu'r arlwy twristiaeth ac felly gwariant gan ymwelwyr, yn amrywio'r cymysgedd o ddefnyddiau gyda chanol y dref ac yn lleihau'r golled o ran gwariant manwerthu i ardaloedd eraill, yn creu cyfleoedd gwaith, yn gwella ansawdd yr aer, yn gwella cysylltedd ac yn gwella ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yng Nghaerffili, yn gweithio yno ac yn ymweld â hi.

Atodiad 3 - Asesiad o Gynigion sy'n Benodol i Safle yn erbyn y nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant CBSC

Mae'r Atodiad hwn yn darparu asesiad cychwynnol o'r prosiectau a nodwyd o fewn y Prif Gynllun yn erbyn y nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant y Cyngor, fel y'u nodir yn y Cynllun Corfforaethol 2018-

2023. Mae'r amcanion llesiant cenedlaethol wedi'u nodi yn Atodiad 2, ac mae'r amcanion corfforaethol wedi'u nodi isod. Dylid nodi bod llawer o'r prosiectau a nodwyd yn eu dyddiau cynnar ac felly ni ellir cynnal

dadansoddiad manwl o'r berthynas rhwng y cynigion a'r nodau a'r amcanion llesiant ar hyn o bryd.

Amcanion Llesiant CBS Caerffili	
Rhif	Disgrifiad
Amcan 1	Gwella cyfleoedd addysg i bawb
Amcan 2	Galluogi Cyflogaeth
Amcan 3	Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu gwella llesiant pobl
Amcan 4	Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd
Amcan 5	Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Amcan 6	Cynorthwyo dinasyddion i barhau i fod yn annibynnol a gwella eu lles

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Nodau llesiant cenedlaethol	Amcanion llesiant CBSC 2018-2023
A	A-1 ac A-2 A-1 a 2 Maes Parcio Morrisons (Ehangiad Manwerthu Cwrt y Castell)	Datblygu rhan o'r maes parcio presennol sy'n ffinio â chanolfan siopa Cwrt y Castell ar gyfer unedau manwerthu sy'n addas i fanwerthwyr lluosog. Datblygu maes parcio aml-lawr modern ar dir i'r gogledd o Morrisons.	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach	● 2 - Galluogi Cyflogaeth
	A-3 Heol Tonyfelin a thriongl Stryd y Castell	Ailddatblygu unedau a maes parcio ger cyffordd allweddol i greu adeilad tirnod o ansawdd uchel fel rhan o'r porth i ganol y dref a'r castell	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach	● 2 - Galluogi Cyflogaeth
	A-4 Heol Caerdydd (y blociau rhwng Stryd Clive a Lôn y Parc)	Gwelliant tymor byr i ymddangosiad gweledol yr adeiladau drwy driniaeth wedi'i theilwra i'r ffasâd Ailddatblygu'r bloc cyfan yn yr hirdymor ar gyfer datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys unedau manwerthu bach a chanolig, A3, swyddfeydd a phreswyl	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach	● 2 - Galluogi Cyflogaeth
	A-5 1-20 Heol Caerdydd	Gwelliant i ffasadau'r adeiladau amlwg sy'n edrych dros y Castell. Ailddatblygu'r bloc yn y tymor hwy i greu datblygiad defnydd cymysg o fannau adwerthu ansawdd uchel	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	● 2 - Galluogi Cyflogaeth
	A-6 Marchnad Dan Do Caerffili	Ailddatblygiad i greu man marchnad ffyniannus fel rhan annatod o gynnig manwerthu pen uchaf y dref Ystyried dichonoldeb newid rhan o Stryd Clive a/neu stryd Pentrebane i fod yn ardal cerddwyr yn unig, heb geir	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach	● 2 - Galluogi Cyflogaeth

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Nodau llesiant cenedlaethol	Amcanion llesiant CBSC 2018-2023
B	B-1 Heol y Cilgant	Ailddatblygu safle Llys Ifor at ddefnydd sy'n ategu twristiaeth	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	● 2 - Galluogi Cyflogaeth
	B-2 Heol Caerdydd a'r ardal o amgylch yr orsaf	Gwella economi'r nos o amgylch gorsaf Caerffili drwy greu man bwyta/bar gwin 'awyr agored' Cynnal astudiaeth i'r potensial i wella economi'r nos.	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	● 2 - Galluogi Cyflogaeth
	B-3 Neuadd a Sefydliad Gweithwyr Caerffili	Gwella'r cyfleuster i greu lleoliad diwylliannol a digwyddiadau ffyniannus yng nghalon y dref	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	● 1 – Gwella cyfleoedd addysg i bawb ● 2 - Galluogi Cyflogaeth
	B-4 Gwell Cyfleusterau Parcio	Paratoi cynllun parcio ar gyfer canol y dref	● A prosperous Wales ● A Wales of cohesive communities	

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Nodau llesiant cenedlaethol	Amcanion llesiant CBSC 2018-2023
C	C-1 Lôn y Parc	Datblygu safle allweddol yn edrych dros Gastell Caerffili ar gyfer gwesty sydd o bosibl yn cwmpasu bwyty pen uchel a/neu gyfleusterau cynadledda	● Cymru lewyrchus ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	● 2 - Galluogi Cyflogaeth
	C-2 Atynnu Twristiaid	Datblygu atyniad twristiaeth yng nghanol y dref	● Cymru lewyrchus ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	● 2 - Galluogi Cyflogaeth
	C-3 Llwybr Twristiaeth	Creu llwybr twristiaid yn cysylltu safleoedd allweddol ac adeiladau o ddiddordeb	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	● 5 - Cefnogi ffordd iach o fyw
	C-4 Twristiaeth Weithgareddau	Cynyddu adeiladau sy'n addas ar gyfer y farchnad dwristiaeth weithgareddau	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	● 5 - Cefnogi ffordd iach o fyw
	C-5 Parc Morgan Jones	Gwella cysylltedd rhwng y dref a'r Parc	● Cymru lewyrchus ● Cymru gydnerth ● Cymru iachach ● Cymru o Gymunedau Cydlynus ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r	● 5 - Cefnogi ffordd iach o fyw
	C-6 Gwelliannau i gyfleusterau coetsys	DDatblygu seilwaith i letya gweithredwyr teithiau'n well, yn cynnwys man gollwng newydd i goetsys.	● Cymru lewyrchus ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	
	C-7 Digwyddiadau	Ehangu'r rhaglen o ddigwyddiadau yn y dref Cynyddu nifer y mannau digwyddiadau	● Cymru lewyrchus ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Nodau llesiant cenedlaethol	Amcanion llesiant CBSC 2018-2023
D	D-1 Cysylltiadau Porth y Gorllewin	Gwelliannau i Barc Dafydd Williams	● Cymru gydnerth ● Cymru iachach ● Cymru o Gymunedau Cydlynus ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	● 5 - Cefnogi ffordd iach o fyw
	D-2 Porth y Gorllewin – arwyddion – Heol y Cilgant	Gwell arwyddion a seilwaith ym maes parcio Heol y Cilgant	● Cymru o Gymunedau Cydlynus	
	D-3 Porth y Gorllewin – arwyddion – Gorsaf Aber	Gwell arwyddion rhwng canol y dref a gorsaf Aber	● Cymru o Gymunedau Cydlynus	● 4 - Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy
	D-4 Porth y Gogledd – cyn Eglwys Beulah	Ailddatblygu safle ar gyfer datblygiad preswyl pen uchel (fflatiau/tai)	● Cymru iachach ● Cymru o Gymunedau Cydlynus	● 2 - Galluogi Cyflogaeth ● 3 - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi
	D-5 Porth y Gogledd – Tafarn y Piccadilly	Ailddatblygu'r dafarn a'r tir cyfagos yn y tymor hir ar gyfer datblygiad defnydd cymysg	● Cymru iachach ● Cymru o Gymunedau Cydlynus	
	D-6 Porth y Gogledd – Gwelliannau amgylcheddol	Gwelliannau amgylcheddol o amgylch y Castell a Maes Parcio Sgwâr Piccadilly	● Cymru gydnerth ● Cymru iachach	

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Nodau llesiant cenedlaethol	Amcanion llesiant CBSC 2018-2023
D	D-7 Porth y Gogledd – rheoli traffig	Ystyried rheoli traffig o amgylch Cyffordd Piccadilly	Cymru iachach	
	D-8 Porth y De – hen adeilad yr orsaf	Gwelliannau i ymddangosiad adeilad yr hen orsaf	Cymru iachach	
	D-9 Porth y De – gwaith tirlunio	Cynyddu'r tirlunio meddal mewn ardal sy'n cael ei dominyddu gan balmentydd a rheiliau	Cymru iachach	
	D-10 Porth y De – Unedau 89-97 Heol Caerdydd	Adnewyddu unedau i wella cydlynad yn y porth allweddol hwn Cyfle ailddatblygu tymor hir	- Cymru lewyrchus - Cymru iachach	2 – Galluogi Cyflogaeth
	D-11 Porth y De – rheoli traffig	Ystyried rheoli traffig o amgylch Stryd Bartlett/Heol Caerdydd	Cymru iachach	
	D-12 Porth y De – gorsaf heddlu a llys yr ynadon	Ailddatblygu safleoedd hen orsaf yr heddlu a llys yr ynadon ar gyfer tai	- Cymru lewyrchus - Cymru o Gymunedau Cydlynus - Cymru sy'n fwy cyfartal	2 – Galluogi Cyflogaeth 3 - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi
	D-13 Porth y Dwyrain - tir rhwng Heol Bedwas a Pharc Lansbury	Gwella mannau agored mewn cydweithrediad â'r gymuned fel rhan o weithredu Cynllun Lle Dwfn Parc Lansbury	- Cymru iachach - Cymru o Gymunedau Cydlynus	

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Nodau llesiant cenedlaethol	Amcanion llesiant CBSC 2018-2023
H	E-1 Cyfnewidfa Drafnidiaeth a Chanolfan Fuddsoddi Caerffili	Ailddatblygu'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth i greu Canolfan Metro, wedi'i hategu gan ddatblygiad defnydd cymysg fel 'canolfan fuddsoddi'	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach ● Cymru o Gymunedau Cydlynus ● Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	● 2 – Galluogi Cyflogaeth ● 4 - Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy
	E-2 Ehangu Parc Busnes Caerffili ac ehangu Canolfan Arloesi Menter Cymru	Datblygiad o 2.2 ha o dir llwyd i'r gorllewin o Barc Busnes Caerffili. Ailddatblygu unedau mewn mannau eraill yn y Parc Busnes nad ydynt yn addas at y diben.	● Cymru lewyrchus	● 2 – Galluogi Cyflogaeth
	E-3 Iard Sgrap Ness Tar a Pesci	Ailddatblygu dau safle halogedig mewn lleoliad gwych ar gyrion canol y dref ar gyfer datblygiad cymysg - preswyl, swyddfeydd B1, unedau byw/ gwaith a hamdden (canolfan hamdden bosibl). Diogelwyd tir ar gyfer ffordd osgoi fel rhan o'r datblygiad.	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach ● Cymru o Gymunedau Cydlynus	● 2 – Galluogi Cyflogaeth ● 3 - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi
F	Cynlluniau gwella CDLI (a nodwyd yn TR6 o'r CDLI)	Gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd strategol yn ● Llwybr Tafwys ● Cylchfan Pwll-y-pant (mae'r cynllun yn cael ei weithredu ar hyn o bryd) ● Cylchfan Pont Bedwas ● Ffordd Gylchu Piccadilly ● Penrhos i Bwll-y-pant ● Pwll-y-pant i Fedwas Ceir rhagor o fanylion am y cynigion yn Atodiad 15 y CDLI	● Cymru lewyrchus ● Cymru o Gymunedau Cydlynus	

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Nodau llesiant cenedlaethol	Amcanion llesiant CBSC 2018-2023
F	F-1 Parcio a Theithio Llanbradach	Creu Parcio a Theithio newydd yn Llanbradach, wedi'i gysylltu â gorsaf sydd wedi'i hadleoli. Datblygu defnyddiau cyflogaeth ategol fel rhan o ganolfan newydd	● Cymru lewyrchus ● Cymru o Gymunedau Cydlynus	● 4 - Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy
	F-2 F-2 Rheilffordd Casnewydd-Machen	Adfer hen linell reilffordd Caerffili i Gasnewydd ar gyfer cludiant i deithwyr	● Cymru lewyrchus ● Cymru o Gymunedau Cydlynus	● 4 - Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy
	F-3 Ffordd Osgoi de-ddwyrain Caerffili (mae Diogelu'r Coridor Priffyrdd wedi'i gynnwys o dan bolisi TR9 o CDLI)	Dyhead hirdymor i ddatblygu ffordd osgoi i'r De-ddwyrain i gwblhau'r ffordd gylch o amgylch Tref Caerffili	● Cymru lewyrchus ● Cymru iachach ● Cymru o Gymunedau Cydlynus	
	F-4 Cyfleusterau Parcio Beiciau	Darparu cyfleusterau beicio ym mhob canolfan drafnidiaeth (gorsafoedd Caerffili, Aber, Eneu'r-glyn a Pharc Churchill a Llanbradach) ynghyd â chyrchfannau cyflogaeth a manwerthu allweddol	● Cymru iachach ● Cymru gydnherth ● Cymru o Gymunedau Cydlynus ● Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	● 4 - Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy ● 5 - Cefnogi ffordd iach o fyw
	F-5 Cynllun Llogi Beiciau	Darparu cynllun llogi beiciau gyda phwyntiau llogi mewn mannau allweddol.	● Cymru iachach ● Cymru gydnherth ● Cymru o Gymunedau Cydlynus ● Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	● 4 - Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy ● 5 - Cefnogi ffordd iach o fyw

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Nodau llesiant cenedlaethol	Amcanion llesiant CBSC 2018-2023
G	G-1 Tŷ Cenydd (cyn adeilad UWHA)	Defnyddio adeilad swyddfa Tŷ Cenydd ar gyfer defnydd swyddfa B1	Cymru lewyrchus	Galluogi cyflogaeth
	G-2 Tir gerllaw Parcio a Theithio Llanbradach	Gweler F-1	- Cymru lewyrchus - Cymru o Gymunedau Cydlynus	Galluogi cyflogaeth
	G-3 Parc Busnes Trecenydd	Datblygu 2.2 ha ar gyfer cyflogaeth ym Mharc Busnes Trecenydd ac ailddatblygu unedau ansawdd presennol i wneud y mwyaf o botensial y safle cyflogaeth allweddol hwn yn agos at orsaf Aber.	- Cymru lewyrchus - Cymru o Gymunedau Cydlynus	Galluogi cyflogaeth
H	H1 Cyfleoedd Datblygu Allweddol o fewn Aneddiadau Presennol – glofa Windsor, Abertridwr	Darparu tai mewn ardal lle mae angen arallgyfeirio'r cyflenwad tai a mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy a Thai ar y farchnad.	- Cymru lewyrchus - Cymru o Gymunedau Cydlynus - Cymru sy'n fwy cyfartal	2 – Galluogi Cyflogaeth 3 - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi
	H2 Cyfleoedd Datblygu Allweddol o fewn Aneddiadau Presennol – gweithfeydd Waterloo, Tŷ'n-y-coed-cae	Darparu tai mewn ardal lle mae angen arallgyfeirio'r cyflenwad tai a mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy a Thai ar y farchnad.	- Cymru lewyrchus - Cymru o Gymunedau Cydlynus - Cymru sy'n fwy cyfartal	2 – Galluogi Cyflogaeth 3 - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi
	H3 Cyfleoedd Datblygu Allweddol o fewn Aneddiadau Presennol – Catnic, Caerffili	Darparu tai mewn ardal lle mae angen arallgyfeirio'r cyflenwad tai a mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy a Thai ar y farchnad.	- Cymru lewyrchus - Cymru o Gymunedau Cydlynus - Cymru sy'n fwy cyfartal	2 – Galluogi Cyflogaeth 3 - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Nodau llesiant cenedlaethol	Amcanion llesiant CBSC 2018-2023
H	H4 Cyfleoedd Datblygu Allweddol o fewn Aneddiadau Presennol – Glofa Bedwas, Bedwas	Darparu tai mewn ardal lle mae angen arallgyfeirio'r cyflenwad tai a mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy a Thai ar y farchnad. Darpariaeth ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd, potensial ar gyfer B1 o swyddfeydd	● Cymru lewyrchus ● Cymru o Gymunedau Cydlynus ● Cymru sy'n fwy cyfartal	● 2 – Galluogi Cyflogaeth ● 3 - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi
	H5 Cyfleoedd Datblygu Allweddol o fewn Aneddiadau Presennol – Ness Tar, Caerffili	Gweler E-3	● Cymru lewyrchus ● Cymru o Gymunedau Cydlynus ● Cymru sy'n fwy cyfartal	● 2 – Galluogi Cyflogaeth ● 3 - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi
I	I-1 Canolfan Hamdden Caerffili	Ailddatblygu neu adnewyddu canolfan hamdden bresennol Caerffili	● Cymru iachach	● 5 - Cefnogi ffordd iach o fyw
	I-2 Ail-leoli Ysgol Gynradd Tŷ'n-y-wern	Adeiladu ysgol newydd yn lle ysgol gynradd bresennol Tŷ'n-y-wern ar safle ysgol uwchradd Bedwas.	● Cymru lewyrchus ● Cymru sy'n fwy cyfartal	● 1 - Gwellu cyfleoedd addysg i bawb
	I-3 Ailwampio safle Ysgol Gynradd Tŷ'n-y-wern ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Ailwampio safle presennol Ysgol Gynradd Tŷ'n-y-wern er mwyn creu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd	● Cymru lewyrchus ● Cymru sy'n fwy cyfartal	● 1 - Gwellu cyfleoedd addysg i bawb
	I-4 Adeiladu darpariaeth Ysgol Gynradd Plasyfelin newydd	Adeiladu ysgol newydd yn lle ysgol bresennol Plasyfelin ar safle presennol yr ysgol	● Cymru lewyrchus ● Cymru sy'n fwy cyfartal	● 1 - Gwellu cyfleoedd addysg i bawb
	I-5 Ysgol Gynradd Sant Iago	Ymestyn Ysgol Gynradd Sant Iago	● Cymru lewyrchus ● Cymru sy'n fwy cyfartal	● 1 - Gwellu cyfleoedd addysg i bawb
	I-6 Canolfan Glowyr Caerffili i'r Gymuned	Adnewyddu lloiau uchaf i ddarparu cegin, ystafell waith, ystafelloedd crefft a cherddoriaeth a Chanolfan mentrau cymdeithasol (Cam 3-5)	● Cymru lewyrchus ● Cymru sy'n fwy cyfartal ● Cymru iachach	● 1 - Gwellu cyfleoedd addysg i bawb ● 5 - Cefnogi ffordd iach o fyw

Amcan Strategol	Prosiect	Disgrifiad	Nodau llesiant cenedlaethol	Amcanion llesiant CBSC 2018-2023
J	J-1 Paratoi Strategaeth Seilwaith Gwyrdd	Rhaglen 20 mlynedd ar gyfer integreiddio, datblygu a rheoli rhwydwaith o seilwaith gwyrdd, gyda chymorth cynllun cyflawni a gweithredu pum mlynedd	● Cymru lewyrchus ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ● Cymru Gydnerth ● Cymru iachach ● Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	● 5 – Cefnogi ffordd iach o fyw
	J-2 Southern Caerphilly Landscape Partnership	Cynllun tirwedd a hamdden ar gyfer ardal Basn Caerffili	● Cymru lewyrchus ● Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ● Cymru Gydnerth ● Cymru iachach ● Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	● 5 – Cefnogi ffordd iach o fyw
K		Mae hon yn amcan trawsbynciol y dylid ei ystyried yn rhan annatod o bob prosiect	● Cymru sy'n fwy cyfartal ● Cymru iachach	● Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy
L	L-1 - Cynllun Lle Dwfn Parc Lansbury	Datblygu a gweithredu damcaniaeth newid yn seiliedig ar le a amlinellir yng Nghynllun Lle Dwfn Parc Lansbury (2017).	● Cymru sy'n fwy cyfartal ● Cymru o Gymunedau Cydlynus	

